

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 324 - 60c
Mehefin 2014

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Lluniau
Eisteddfod
Capel y Groes**



Tudalen 27

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 25

**Twrnament
Pêl-droed
Llanybydder**



Tudalen 2

Mentrau newydd ac adfywio tref



Y dyfarnwr rhyngwladol Nigel Owens yn arwyddo crysau ar ddiwrnod Agoriad Swyddogol adeilad newydd Clwb Rygbi Llanbed. Mwy ar dudalen 28.



Y cynghorydd Elsie Dafis, Maer Llanbed yn agor Amgueddfa newydd Llanbed yn swyddogol yn hen adeilad y porthor yn Stryd y Coleg. Mwy ar dudalen 24.



Cynrychiolwyr o Lanbed a fu mewn cyfarfod yn ddiweddar er mwyn trafod adfywio canol y dref. Ymateb ar dudalen 5 a 16.

Pêl-droed



Tîm Pêl-droed o dan 10 oed Llambled a fu'n fuddugol yn nhwrmament Llanybydder ddiwedd Mai. Llongyfarchiadau i Meirion Lloyd ar ennill tlws y chwaraewr gorau dan 10 oed. Diolch yn fawr i'r rheolwyr sef Aled Evans a Huw Rowcliffe am hyfforddi'r tîm.

Doedd Catherine ddim yn siŵr sut i drafol iselder ei chydweithiwr.

Er mwyn dofi anifail gwyllt, byddai bod yn ddofwr llewod yn helpu, ond dim ond siarad mae Mark eisieu ei wneud.

rhown ddiwedd ar wahaniaethu ar sail iechyd meddwl

amser i newid Cymru

Does dim angen i chi fod yn ddofwr llewod. Pan fydd gan rywun rydych yn ei adnabod broblem iechyd meddwl, byddwch yn arbennig drwy fod yn ffrind. Rhagor o wybodaeth: bit.ly/byddynffrind

amserinewidcymru.org.uk

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



www.facebook.com/clonc



@Cloncyn

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
@Cloncyn
Mai 24

Diolch i aelodau
#SefydliadyMerched
#Coedmor am arlwygo
yng Ngharnifal
#Cwmann heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Cloncyn neges
@DelythPhillips
Mai 14

Amgueddfa Llanbedr
Pont Steffan - yr
arwydd wedi'i osod.
#Llambled

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Dyfynnodd
@Cloncyn neges
@doddracher.
Mai 5

Yn Agoriad Swyddogol
@LampeterTownRFC
Diwrnod cofiadwy.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Cloncyn neges
@AlisButten
Mai 3

Bois CFFl Cwmann yn
barod i goginio yn Rali
Sir Gâr. **#YFC**

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Cloncyn
Mai 1

Lori wedi bwrw postyn
lamp ar y Stryd Fawr
prynhawn 'ma.
@DyfedPowys

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Cloncyn neges
@Craffwr
Ebrill 26

Hen draddodiad
Cymreig dal yn fyw
yng Nghwmman.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mai a Mehefin e-bost:	Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach golygydd@clonc.co.uk	481855
Tim Golygyddol	Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Phillips	
Dylunydd y mis	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Swyddog Dosbarthu e-bost:	Eifion Davies, Afallon, Drefach bedwyr@btopenworld.com	480590
Teipydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfin Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambod	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach	481855
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambod	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambod	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gwebylfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncy
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gormod o bwdin dagith gi!

"Gafodd Waldo 'run sylw â 'Dillon Tomys' yn 2004? Dim ffiars – bardd Cymraeg oedd o."

Morgan Jones, cyflwynydd Sgorio (ymysg rhaglenni eraill ar S4C) biau'r geiriau – geiriau wnaeth eu rhannu ar Twitter ddechrau Mai.

Ac mae gen i gydymdeimlad mawr â'r hyn ddywedodd Morgan. Dwi ddim yn un sydd wedi astudio rhyw lawer o farddoniaeth a llenyddiaeth Saesneg mae'n rhaid i fi gyfaddef, ac efallai nad ydw i yn gallu gwerthfawrogi mawredd Dylan Thomas. Ond gormod o bwdin dagith gi! Mae'n siopau llyfrau yn gwegian gan lyfrau amdano; does dim dianc rhagddo ar donfeddi'r radio na'r teledu chwaith.

Ond yma yn ardal Llambod wrth gwrs rydym yn ymfalchïo yn ein cysylltiad â'r hen Ddylan. Mae yna lwybr taith o gwmpas y dref sydd yn esbonio cysylltiad Llambod â'r ymgais i lofruddio Dylan Thomas yn 1945. Gwyddom hefyd am ei gysylltiad agos â'r dyffryn drws nesa', Dyffryn Aeron – ac o'r fan honno wrth gwrs y daeth enw'i ferch, Aeronwy.

Eto i gyd, i ddod yn ôl at ergyd neges Twitter Morgan Jones, mae'n deg dweud taw oherwydd i Dylan Thomas farddoni yn yr iaith fain y mae cymaint o sôn amdano erbyn hyn a dyna pam ein bod ni fel yr hil ddynol wedi meddwi arno eleni ym mlwyddyn canmlwyddiant ei eni. Tristwch y sefyllfa yw bod rhai yn dal i feddwl taw yn Saesneg y mae llwyddo – yn academiaidd, ym myd celfyddyd a cherddoriaeth.

Y mae rhyw fardd Cymraeg neu'i gilydd yn dathlu carreg filltir nodedig o hyd, ond 'dathliadau' tawel, digon di-nod sydd i'r rhelyw ohonynt, os o gwbl.

Mae'n dda gweld cyfle fodd bynnag yn y fro hon i ddathlu a mawrhau rhai o'n pobl leol – beirdd, cerddorion, crefftwyr, ffermwyr, gwerin di-nod – a hynny yn yr Amgueddfa newydd sydd wedi agor yn yr Hen Borthordy ar Stryd y Coleg. Menter cymdeithas Hanes Llambod yw'r Amgueddfa, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac ar hyn o bryd mae'n talu sylw i Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanbedr Pont Steffan 1984, pobl yr ardal a effeithiwyd gan y Rhyfel Byd Cyntaf, ac arddangosfa i goffâu Jac Oliver y Barbwr.

Dyma gerrig milltir sy'n berthnasol i ni yn lleol ac sydd eisiau i ni fel pobol ardal Clonc eu cofio. Da chi, ewch i weld yr Amgueddfa – mae ar agor bob dydd Sadwrn, Mawrth a Iau o 10 y bore tan 4 y prynhawn.

Cloncen

Fferm Denmark

Yn ôl at ein Gwreiddiau

Prosiect Gwirfoddoli newydd, 'Gwaith Dros Natur', yn galluogi Fferm Denmark i fynd yn ôl at eu gwreiddiau a chanolbwyntio ar dipyn o waith cadwraeth hanfodol.

Yn ddiweddar, derbyniodd Canolfan Gadwraeth Fferm Denmark ger Llambod ddau grant bach gan Amgylchedd Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r cyllid dan sylw'n darparu ychydig amser bendithiol i'r elusen gael ei gwynt ati er mwyn canolbwyntio eto ar ei hamcan creiddiol i amlygu'r berthynas rhwng pobl a natur, gan edrych ar werth ac amrywiaeth bywyd a thirweddau.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn arbennig o anodd i Fferm Denmark gyda'r holl gyllid yn sychu, gostyngiadau yn y staff a rhywfaint o ddifrod dychrynlyd annisgwyl gan y tywydd. Mae'r prosiect hwn yn dynodi dechrau cyfnod newydd gan ddarparu cyfle hanfodol i gael ein gwynt atom yn ystod y cyfnod hwn sy'n anodd iawn i bob elusen.

Mae'r prosiect unflwydd newydd, 'Gwaith Dros Natur', yn ymwneud â'ch amser i natur. Dyma gyfle i chi fwynhau a chyfrannu i'r warchodfa natur 40 erw unigryw yn Fferm Denmark. O'ch rhan chi, gallwch ddysgu mwy gan y safle drwy fonitro bywyd gwyllt a gwella cynefinoedd gydag amrywiaeth o dasgau ymarferol hanfodol. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y ddealltwriaeth o sut gall y tîm barhau i reoli'r tir i'w drawsnewid yn safle mwy gwerthfawr fyth i bobl, planhigion ac anifeiliaid.



Mae croeso i bawb ymuno â digwyddiadau gwirfoddoli drwy gydol y flwyddyn – gan feithrin eich sgiliau wrth helpu i gynnal a chadw'r gwahanol gynefinoedd a'r fioamrywiaeth gyfuriog yng Nghanolfan Gadwraeth Fferm Denmark.

Cynhelir digwyddiad blasu 'Gwaith Dros Natur' ddydd Sadwrn 7 Mehefin o 10.30 tan 1.30yp. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys llenwi gwesty pryfed, plannu wal fyw a thaith fer o gwmpas y safle. Ni chodir tâl i gymryd rhan a darperir cinio ysgafn. Dewch, da chi, i gael gwybod mwy a chymryd rhan.

Os hoffech ymuno â'n rhestr bostio a derbyn diweddariadau rheolaidd am ddigwyddiadau gwirfoddoli 'Gwaith Dros Natur' dylech anfon e-bost at volunteer@denmarkfarm.org.uk neu ein ffonio ni ar 01570 493358



MEHEFIN

- 2- 6 Dewch i ddysgu sgiliau adeiladu cynladwy yng Nghanolfan Ymwelwyr Longwood.
- 7 Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Llechwedd, Llanwenog.
- 8 Cymanfa Rali yng Nghapel Gorsgoch.
- 9 - 13 Dewch i ddysgu sgiliau adeiladu cynladwy yng Nghanolfan Ymwelwyr Longwood.
- 10 Cyfarfod Canmlwyddiant Rhyfel Byd Cyntaf Plwyf Llanwenog 7.30y.h. Neuadd Drefach.
- 13 Gwledd y Ffair - 25 Mile yn Neuadd Fictoria, Llanbed am 7.30y.h. i godi arian i Ffair Fwyd Llanbed.
- 13 Clwb Ffermyr Ifanc Llanllwni yn cynal noson Helfa Drysor i ddechrau o Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau am 6.30y.h.
- 14 Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria, Llanbed 10yb - 1yp.
- 20 Ras yr Iaith - Cymal Llambled tua 2.00y.p.
- 20 Ffair Haf Ysgol Llanwenog i ddechrau am 4.00y.p.
- 22 Cymanfa Ganu yng Nghapel Aberduar am 6.30y.h fel rhan o wythnos Carnifal Llanybydder.
- 24 Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h. fel rhan o wythnos Carnifal Llanybydder.
- 24 Hyfforddiant Golwg360 a Clonc ar y Cyfryngau Cymdeithasol (twitter a facebook) i gymdeithasau lleol yn yr Hedyn Mwstard.
- 25 Helfa Drysor cerdded am 6.30y.h. i gwrrd ger Clwb Rygbi Llanybydder fel rhan o wythnos Carnifal Llanybydder.
- 27 Cyngerdd dathlu 50 Côr Cwmann a'r Cylch yn Neuadd Sant Iago Cwmann gyda Corisma a phlant Ysgol Carreg Hirfaen.
- 27 Cwis Tafarn yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 7.00y.h. fel rhan o wythnos Carnifal Llanybydder.
- 28 Carnifal a Mabolgampau Llanybydder yng nghae OJ am 1.30y.p. Amryw o stondinau a gēmau newydd. Diwrnod i fwynhau.
- 28 Dawns y Carnifal yn y Llew Du o 6.30y.h. ymlaen.
- 28 Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria, Llanbed 10yb - 1yp.
- 29 Cyngerdd gan Gôr Sefydliad y Merched Ceredigion yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi am 7.30y.h. Elw tuag at y capel. £5.
- 29 Helfa Drysor am 3.30y.p. i ddechrau yn nhafarn Talardd Llanllwni. Elw tuag at ysgol Llanllwni.

GORFFENNAF

- 4 Barbicw a Cwis yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
- 5 a 6 Penwythnos Cynganeddu gyda'r Prifeirdd Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones yn y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin).
- 11 Cyngerdd dathlu 25 mlynedd o waith Pwyllgor Sirol R.A.B.I. Ceredigion yn Neuadd Aberaeron.
- 11 Recordio Dechrau Canu Dechrau Canmol yn Shiloh Llanbed.
- 12 Mabolgampau Blyneddol Cwrtnewydd.
- 13 Capel Brynteg - Cyngerdd gan Gôr Lleisiau'r Werin am 7.30y.h.
- 26 Ffair Fwyd Llanbed ar dir y coleg.

AWST

- 2 Carnifal Llanbedr Pont Steffan.
- 8 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- 10 Gwasanaeth Coffa Canmlwyddiant Rhyfel Byd Cyntaf Eglwys Llanwenog 2.00yp gyda The Cymreig i ddilyn.
- 25 Sioe a Threialon Cŵn Defaid C.Ff.I Llanllwni ar gaeau Abercwm. Manylion pellach: Meryl Davies ar 07791 305614.
- 26 Penwythnos Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan.

MEDI

- 11-14 Gŵyl Golwg ar dir y coleg, Llanbed.
- 13 Ffair Ram yng Nghae Pentref Cwmann.
- 22 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion Canolfan Felinfach.

HYDREF

- 8 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7yh.
- 10 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
- 12 Gymanfa Ganu 50 Côr Cwmann yn Shiloh Llanbed.
- 30 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Clwb Clonc

Mehefin 2014

£25 rhif 291 :
Ann Jones,
Clifton, Pencader
£20 rhif 160 :
Mrs Eirlys Evans,
Rhoswen, Maesycrugiau
£15 rhif 186 :
Mrs Mair Green,
Nantgwyn, Heol Llanfair
£10 rhif 227 :
Mrs Eluned James,
Ael y Bryn, Heol Maestir
£10 rhif 401 :
Mair Rees,
Melrose, Cwrtnewydd
£10 rhif 465 :
Mrs Mair Williams,
5 Llys Idwal, Llambled

Alltyblaca

Diolch

Dymuna Gwyn, Heddwyn a theulu y diweddar Megan Jones Llwynbedw, Alltyblaca / Castell Du Llanwnnen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar.

Diolch i'r Parchedigion Suzi Bale, Ceu Llwyd a Goronwy Evans am gynnal gwasanaeth hyfryd yn Eglwys St Lucia a Chapel y Groes, Llanwnnen. Diolch hefyd i Gwilym C Price ei Fab a'i Ferched, Llanbed am eu gwasanaeth gyda trefniadau'r angladd. Casgwyl y swm o £1000 tuag at Nyrsus Marie Curie, Meddygfa Teifi, Llandysul a Amser Justin Time, Elusen Cancr Pancreas Cymru.

Cellan

Gwellhad Buan

Gobeithio fod John Green, Nantgwyn yn gwella yn dilyn ei law driniaeth yn ystod y mis diwethaf. Mae'n dda i glywed hefyd fod Alwen Edwards, Awel Teifi yn well ar ôl cyfnod o salwch yn ddiweddar.

Sêl Pen Bwrdd

(Table Top Sale)

Neuadd Goffa Llangybi
Dydd Sadwrn 22ain Mehefin
9 o'r gloch hyd 12 o'r gloch.
Gwerthwyr i gyrraedd erbyn 8 o'r gloch.

Bwrdd £5.00 yr un.
Archebwch eich bwrdd,
cysylltwch â Helen ar
(01570)493568 cyn Dydd
Mawrth 17fed Mehefin.

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau

Dyfodol ein tref

Cynhaliwyd Cyfarfod Arbennig gan Siambr Fasnach Llambled ar ddydd Gwener y 9ed o Fai, yn neuadd yr Eglwys yma yn Llambled, i greu a thrafod syniadau i ddatblygu bywyd economaidd y dref, nawr ac yn y dyfodol agos.

Roedd y drafodaeth yn un ddiddorol iawn ac yn cynnwys amrywiaeth lliwgar o syniadau – llawer ohonynt yn ymarferol i'n sefyllfa ni yma yn Llambled. I ail adrodd y cyfan fyddde gofyn ysgrifennu llyfr sylweddol. Dyma rai o'r syniadau ddaeth allan o'r cyfarfod:

ARWYDDBYST a mapiau

Os nad y'ch chi'n gyfarwydd â Llambled, sut yn y byd fedrwch chi gael gafel ar dŷ bach cyhoeddus neu maes parcio mewn pryd? Dim arwyddbost yn unman. Mlân â chi yn gyflym i'r lle nesa. Ond i ni eisiau chi i stopio gyda ni – ar ôl defnyddio'r cyflesterau – cael cwpaned o de, rhywbeth i fwyta a wâc rownd y siopau. Mae'n amlwg ei bod hi'n bryd i ni sortio arwyddbyst allan. Fyddwch yn falch clywed fod gwaith ar y gweill i ddatrys y broblem fach hyn. Wrth gwrs mae eisiau pwyntio at y Ganolfan Cwiltiau ac Amgueddfa newydd Llambled hefyd, a unrhyw beth arall sy'n ddigon diddorol i dynnu bobl mewn i Llambled – a'u cadw nhw yma am amser digon hir iddynt roi eu llaw yn eu pocedi. Bydde map o'r brif strydoedd sy'n dangos siopau a'r busnesion eraill sydd ar gael yma yn Llambled yn ddefnyddiol hefyd.

SIOPA YN LLEOL

Wrth gwrs, mae bobl lleol yn gwybod ble mae'r siopau – ond a ydynt yn eu defnyddio yn rheolaidd? Gwnaeth y cyfarfod dynnu sylw at y ffaith mai'r bobl sy'n cwyno fod Llambled yn dirywio yn gyflym yn aml yw'r rhai sy'n teithio allan o Llambled i wneud eu siopa i gyd. A ydych chi'n un ohonynt? Mae taith fach siopa'n grêt – rydym i gyd yn haeddu wâc – ond wir, prynwch rai pethau yn Llambled. Dyna'r ffordd ore i gadw'r dref yn fywiog ac yn llwyddiannus. Hefyd, fyddde'n syniad da i ddod â'r Farmers Market (na, ddim i werthu lloi, ond i werthu cacennau ac yn y blaen) yn ôl i'r Stryd Fawr. O ie, mae diwrnod cenedlaethol Siopwch Yn Lleol ar y 6ed o Ragfyr – ond peidiwch â sefyll hyd hynny i gefnogi Llambled.

CYFRYNGAU

Yn ogystal â delio gyda chwsmeriaid yn y ffordd gwrtais sydd yn ail-natur i bobl Llambled, mae angen hefyd i ddefnyddio ffyrdd modern i gyfrathrebu gyda chwsmeriaid: – fel y dywedodd Tina Trysor, Angharad Lan Llofft (y siop) ac Elin Jones AC. Trydar/Twitter a'r Gweplyfr/Facebook a'r pethe yna; ma' lot da ni'r hen ffogis i ddysgu wrth ein hieuanctid deinamig. Maent yn ceisio cael Maer Tref Llambled ar Twitter ac i Drydar os gwelwch yn dda. Mae'n edrych yn debyg fydd rhaid rhoi cynnig arni...

Hefyd mae eisiau cadw gwefan y Cyngor Tref yn gyfoes. Cymerwch gipolwg ac os i chi'n gweld rhywbeth sy'n anghywir yna – dywedwch wrthom ni – roedd y cyfarfod eisiau gwefan i Llambled – mae ar gael yn barod gyda ni – ac mae'n ddyletswyd ar bawb i wneud yn siwr fod y manylion yn gywir.

Mae gwefan newydd wedi ei lawnsio yng Nghastell Newydd Emlyn yn y mis diwethaf – y Teifi Trail – sydd yn cwmpasu o Aberteifi yr holl ffordd i fyny i Lynnoedd y Teifi ym Mhontrhydfendigaid – a dim ond £10 mae'n costio i hysbysebu eich busnes am flwyddyn.

Gall ddefnyddio'r papurau lleol i drosglwyddio syniadau (Y Clonc a'r Grapevine) â defnyddio gwefan y Cyngor Sir fod yn dda. Ond mae angen teithlyfr newydd ar Llambled hefyd.

Syniadau da – gobeithio fod llawer o ddwylo ar gael i wneud y gwaith hwn.

TWRISTIAETH

Beth sydd yma i ddenu ymwelwyr? Fwy nag ydych yn ei feddwl:

- Canolfan Cwiltiau sy'n enwog yn rhyngwladol, a'r busnesau cysylltiedig fel Calico Kate ar siop wlân a'r cyrsiau cwilto ac yn y blaen – clwstwr o bethau all wneud Llambled yn ganolfan gwiltio unigryw
- Amgueddfa Llambled
- Campws y Brifysgol
- Taith treftadaeth wedi ei sefydlu – allwn ychwanegu at hyn



Mewn seremoni yn y Coleg ar Fai'r ail anrhydeddwyd Maer newydd Llambled ar gyfer 2014 - 2015 sef Cyng. Elsie Dafis a'r Faeres Mrs Liz Williams. Ar y dudalen hon cawn ymateb y Maer i'r cyfarfod diweddar a gynhaliwyd i drafod dyfodol y dref.

*Does neb yn dweud
ei fod yn mynd i
fod yn hawdd.*

- Siopau bach lleol â photensial – mae Stryd Fawr llawer o drefi wedi ei chwalu gyda'r superstores – mae'n bryd dathlu beth sydd gyda ni
- Longwood – canolfan naturiol sydd yn datblygu gyda help y loteri cenedlaethol
- Golygfeydd prydferth
- Yr iaith Gymraeg yn fyw ac yn iach
- A bobl go lew hefyd!

Mae eisiau hefyd cyd-weithio o fewn cylch ein cymuned naturiol – Aberaeron, Felinfach, Llanybydder, Llandysul, Castell Newydd Emlyn, Aberteifi a phob pwynt rhwng y trefi. A phwy all anghofio Tregaron gwedwch? Dyna ddechre i chi.

DIGWYDDIADAU

Wedyn mae gennym galendr o ddigwyddiadau. Mae angen rhestr unedig o rhain – o ddydd Santes Dwynwen ar 25ain o Ionawr hyd at Ŵyl y Nadolig yn Rhagfyr (a phoster o'r digwyddiadau ym mhob siop a caffi – pam lai?). Mae'r haf yn llawn dop gyda'r sioe fwyd, y carnifal, y sioe amethyddol a'r eisteddfod, yn ogystal â digwyddiadau mwy anarferol: er enghraifft, mae sôn fod gŵyl cwiltiau ar y gweill i ddechrau yn yr Hydref. Mae atgofion Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar y calendr a Gŵyl 100 Dylan Thomas i ddathlu hefyd.

PARCIO

Awgrymodd rhywun y gallai siopau'r dref ddatblygu cynllun i roi'r gost o barcio yn y Rookery yn ôl os byddai'r cwsmeriaid yn gwario rywfaint yn ein siopau lleol fel sydd ar gael yn y Maes Parcio wrth ymyl Sainsbury's. A hefyd ceisio perswadio'r Cyngor Sir i ail feddwl dwblu pris parcio yn y Rookery!

Y BRIFYSGOL

Prifysgol llwyddiannus yn Llambled sy'n golygu fod y dref yn llwyddiannus hefyd. Gobeithio nad ydym yn mynd i golli mwy o swyddi ond gweld y staff yn cynyddu gyda rhifau myfyrwyr yn mynd i fyny. Byddai'n braf gweld ychydig o swyddi S4C yn cyrraedd Llambled hefyd.

YN OLAF

Wrth gwrs mae'n rhaid i fusnesau gadw ddatblygu a bod yn sensitif i beth mae'r cwsmeriaid eisiau, wrth ofyn iddynt yn ogystal â chadw i fyny â'r byd modern drwy ymchwil a hyfforddiant. Does neb yn dweud ei fod yn mynd i fod yn hawdd.

Ond allwn ni ddim gwahanu bywyd economaidd a bywyd diwyllianol y dref. Efallai fod eisiau Swyddog Datblygu ar y dref, i helpu gyda'r gwaith sydd o'n blaenau. Rhywun dwyieithog sydd yn deall a pharchu diwylliant cyfoethog ein hardal – cawn weld.

Elsie Dafis, Maer Llambled

*allwn ni ddim
gwahanu bywyd
economaidd a bywyd
diwyllianol y dref.*

Campws Iau

Llongyfarchiadau mawr i Filip o flwyddyn 5 a ddaeth yn bedwerydd yn rownd cyn-derfynol gymnasteg Prydain yn ddiweddar dan gyfarwyddyd Mr Islwyn Rees. Bydd Filip yn mynd ymlaen i gystadlu gyda thîm Prydain yn y Rownd derfynol ym mis Gorffennaf. Pob hwyl Filip. Cafodd parti unsain yr ysgol gryn lwyddiant mewn Eisteddfodau lleol yn ddiweddar gan gipio'r wobr gyntaf i bartion unsain i ysgolion yn Eisteddfod Capel y Groes a dod yn ail yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid. Diolch i Lowri Jones o'r chweched dosbarth am eu hyfforddi. Pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Bala ac hefyd i'r Gân Actol a pharti unsain yr adran. Llongyfarchiadau i Ifan Meredith o flwyddyn 3 ar ennill cystadleuaeth creu gemwaith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac i Lowri Meles James Evans ar ddod yn drydydd am wneud ffotograffiaeth. Cofiwch alw i mewn i weld eu gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Bala.



Lowri Meles James Evans ac Ifan Meredith gyda'u tystysgrifau celf.

Bu cerddorfa'r ysgol yn perfformio o flaen yr ysgol ddiweddar ac roedd yn bleser i'w clywed. Diolch i Mr Cooper ac i Mrs Jones am eu gwaith diflino gyda'r gerddorfa. Daeth y Parch Patron Bell i wneud gwasanaeth yn yr ysgol yn seiliedig ar waith Cymorth Cristnogol a chafwyd cyflwyniad diddorol ganddo. Diolch iddo am roi o'i amser. Gwnaeth y plant i gyd ymateb yn ddeallus.

Cynhaliwyd cyngerdd ar y cyd rhwng yr Ysgol ac Adran ac Aelwyd yr Urdd o holl bigion yr Eisteddfod Sir ac roedd yn bleser clywed yr amrywiaeth o eitemau llefaru, ymgom, canu, offerynnol, dawnsio ac actio. Bydd elw'r noson yn cyfrannu at gostau mynd i'r eisteddfod yn y Bala.

Bu nifer o'r disgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Cylch a llawer yn mynd ymlaen i gystadlu ar lefel Sirol. Llongyfarchiadau i Owen Roweliffe ar ddod yn ail yn y Sir, Jessica McKay ar ddod yn wythfed a Lucy Davis ar ddod yn nawfed. Tipyn o gamp. Pob hwyl i'r rhai a fydd yn cystadlu ar lefel Genedlaethol ym mis Mehefin. Bu aelodau o raglen deledu Stwnsh yn yr ysgol gyda disgyblion blwyddyn 6 yn gwneud amrwy o weithgareddau ac yn siarad â'r disgyblion. Cafwyd llawer o sbort a sbri yn eu cwmni. Llongyfarchiadau i'r canlynol a dderbyniodd wobrau am waith Celf y Pasg mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y Co-op sef Elis, Melanie, Klaudia, Austin, Elan a Marnie.

Campws Hŷn



Taith Bl.9 i Wlad Belg: Bu 48 disgybl blwyddyn 9 o Ysgol Bro Pedr ar daith Hanes i Wlad Belg a gogledd Ffrainc yn ddiweddar. Cafwyd cyfleuon i ymweld ag amrywiaeth o dirnodau gan gynnwys bedd Hedd Wyn, mynwentydd y milwyr gollodd eu bywydau yn ystod y rhyfeloedd a chofeb Mametz. Cawsom ganiatâd arbennig hefyd i ymweld â Chromlech Coffa Cymru, sydd heb agor eto. Bydd y gromlech yn agor yn swyddogol ar yr 16eg o Awst eleni. Roedd yn daith fythgofiadwy ac yn anhygoel o arwyddocaol eleni o ganlyniad i'r can mlynedd.


Llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd: Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Canolfan Y Bont sydd wedi ennill eu cystadleuaeth Gwaith Creadigol 2D dan 25 oed. Daeth y criw yn gyntaf ar draws Cymru am eu gwaith 2D sydd wedi ei hysbrydoli gan yr arlunydd Luned Rhys Parry. Llongyfarchiadau hefyd i Robert Jenkins a ddaeth yn ail a Jordan Evans a



Buddugwyr Ysgol Bro Pedr yng nghystadleuaeth Pasg y Co-op.



Clare Taylor yn derbyn sic o £1,581.50 ar ran staff a disgyblion Canolfan y Bont, Ysgol Bro Pedr gan aelodau 'Slimming World' Llanbed - Elinor Evans, Kay Farquhar, Margaret Morris, Nicola Doyle, Margaret Morris a Gwenan Thomas (absennol). Y disgyblion yw Bethanie Fox, Dylan Jenkins, Joshua Hemming a Palmiro Radaszewski gyda'r staff Nicola Morris, Carys Rees, Wendy Gardner a Tamara Konig.



Tîm buddugol siarad cyhoeddus Cymru yn Eisteddfod yr Urdd o Ysgol Bro Pedr - Gethin Morgan, Sian Elin Williams, Aron Dafydd a Gwawr Hatcher gyda'u hyfforddwraig Mrs Edwina Rees.

ddaeth yn drydydd yn y cystadleuaeth gemwaith i flwyddyn 9. Llwyddodd Dewi Uridge ennill y cystadleuaeth celf dan 19 oed hefyd.

Cystadleuaeth y Big Bang Theory: Dathliad mwyaf y Deyrnas Unedig o ran gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg yw'r cystadleuaeth 'Big Bang'. Caiff disgyblion (7-19 oed) trwy gydol y wlad gyfle i greu nwyddau a chystadlu am wobrau a chlodd. Eleni cynhaliwyd y cystadleuaeth yn y NEC ym Mirningham a bu Jaeger Petry a Dewi Uridge yn ddigon ffodus i gael eu dewis i gynrychioli Ysgol Bro Pedr. Yn ystod y digwyddiad deuddydd, cafodd y ddau gyfle i arddangos eu dyfeisiau, a ddyfarnwyd gan wyddonwyr a pheirianwyr, a'r cyfle i weld gwaith disgyblion eraill. Daeth AS Ceredigion, Mark Williams i longyfarch y ddau yn ystod y dydd hefyd.

Ffarwelio â Blwyddyn 13: Er mwyn dathlu diwedd cyfnod i'n myfyrwyr



Mr Aled Dafis, Dewi Uridge a Mark Williams AS yn y Big Bang.



Mr Aled Dafis, Jaeger Petry a Mark Williams AS yn y Big Bang.



Llongyfarchiadau mawr i Cyffin Thomas am gyrraedd Academi Sgïo Cymru. Yn y Pencampwriaethau Prydeinig daeth yn 12fed yn y 'slalom'. Bydd e'n mynd i 'Landgraaf Snowdome' dros yr Haf i hyfforddi gyda gweddill Academi Sgïo Cymru. Pob Lwc iddo!

Blwyddyn 13, cynhaliwyd prynhawn o hwyl iddynt ar ddydd Gwener, Mai 16eg. Cawsant ginio ffarwel blasus wedi'i baratoi gan Linda a staff y ffreutur, buont yn gwyllo ffilm a oedd yn cwmpasu eu cyfnod o saith mlynedd yn yr Ysgol a baratowyd gan Sian Elin, cyn treulio'r prynhawn yn mwynhau yng nghwmni ei gilydd a chael sawl 'socad' ar gaeau'r Ysgol. Pob lwc i'n myfyrwyr Blwyddyn 13 yn eu harholiadau Safon Uwch eleni ac fel Ysgol, dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol – boed hynny yn y brifysgol, yn gwneud prentisiaeth neu ym myd gwaith.

Ffair UCAS: Ar fore dydd Mercher, Ebrill 9fed, bu disgyblion o flwyddyn 12 yn Ffair UCAS ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, campws Caerfyrddin. Cafodd bob disgybl gyfle i siarad â chynrychiolwyr o amrywiaeth o brifysgolion, casglu gwybodaeth am wahanol gyrsgiau a mynychu sesiynau ar amryw o bynciau gan gynnwys ffioedd myfyrwyr. Mae'r disgyblion yn sicr wedi elwa'n fawr iawn o'r ffair.

Prif swyddogion: Fel Ysgol, carwn ddiolch yn ddiffuant iawn i'n tîm o brif swyddogion sydd wedi gweithio'n dd-flino ar hyd y flwyddyn gan ymgymryd â phob dyletswydd gyda graen. Diolch yn fawr i Dewi Uridge



Cyngor Ysgol: Dros hanner tymor mis Chwefror bues yn ddigon ffodus i gael ymweld ag ysgol uwchradd St. James ym Mokhotlong, Lesotho - dyma ein hysgol bartner, sy'n darparu addysg i 840 o blant. Y nod pan es i ymweld â'r ysgol oedd sefydlu Cyngor Ysgol a gyda chynghor o aelodau Cyngor Ysgol Bro Pedr rwy'n hapus adrodd fod y prosiect yn llwyddiant. Rwy'n sicr bydd eu Cyngor Ysgol hwy ond yn cryfhau gydag amser o ganlyniad i barodrwydd y staff a'r disgyblion i feithrin y syniadau a rhoi'r cyngor a gafwyd ar waith yn syth. Uchafbwynt yr ymweliad oedd y 'Mokete', neu seremoni diwrnod diwylliannol a gynhaliwyd yn yr ysgol ar fy nghyfer i. Cefais enw Basotho, fy ngwisgo yn y wisg ddiwylliannol a fy nifyrru gyda disgyblion yn adrodd, actio, dawnsio a chanu. Roedd y seremoni liwgar, llawn cyffro a diwylliannau amrywiol yn brofiad anhygoel. Daeth teimlad o dristwch drosod pan ddaeth yr amser i adael St. James. Er bod yr ymweliad yn un byr cefais brofiadau anhygoel. Mae'r anwylddeb sydd gan yr ysgol tuag at ein hysgol ni wedi effeithio arna i'n fawr iawn, mae'r cyswllt rhwng ein hysgolion yn un pwysig tu hwnt a'r gobaith sydd gennyf yw y bydd yn parhau am flynyddoedd eto. Rwy'n edrych ymlaen at weld athrawon St James yn ymweld â ni yma yn Llanbed yn y dyfodol agos. (gan Deiniol Williams)



Yr Adran Saesneg: Gwnaeth yr awdur o Sir Gaerfyrddin Dafydd Wyn ymweld ag Ysgol Bro Pedr ar ddydd Mawrth, yr 20fed o Fai er mwyn trafod ei nofel newydd, 'Hunting the Man in the Moon' gyda chriw o ddisgyblion mwyaf abl a thalentog blynyddoedd 8 a 9. Mae'r nofel yma'n ymdrin â'r thema o fwlio a bu'r disgyblion yn holi nifer o gwestiynau deallus yn ystod y sesiwn er mwyn ehangu eu dealltwriaeth o'r broses o ysgrifennu ar gyfer pobl ifanc. Derbyniodd y disgyblion glod gan Dafydd Wyn am eu brwdfrydedd ac roedd yn hapus iawn gyda safon y gwaith ysgrifenedig a gynhyrchwyd yn ystod y gweithdy. Mae'r nofel yn cael ei chyhoeddi gan 'Y Lolfa' a bydd ar gael o ddiwedd y mis.

(Prif Fachgen), Sian Elin Williams (Prif Ferch), Edward Bransden, Aron Dafydd a Gwawr Hatcher (Dirprwyon) am fod yn llysgenhadon gwyh dros yr Ysgol a diolch iddynt am eu cymorth a'u cefnogaeth parod ar bob achlysur.

Ysgoloriaethau: Llongyfarchiadau i Joe Jenkins a Llion Thomas o flwyddyn 13 ar dderbyn gwobrau teilyngdod gan Brifysgol Aberystwyth yn dilyn sefyll arholiadau ysgoloriaeth yn gynharach yn y flwyddyn. Yn ogystal, llwyddodd nifer o'n myfyrwyr i dderbyn cynigion di-amod ar sail perfformiad da yn yr arholiadau ysgoloriaeth – da iawn felly hefyd i: Gwawr Hatcher, Sion Hughes, Ianto Jones a Sian Elin Williams.

C.Ff.I Ceredigion

Dydd Sul Hwylus y Pasg sy'n ddigwyddiad poblogaidd iawn erbyn hyn, lle mae aelodau hŷn y mudiad yn ymgynnull i ymlacio a mwynhau diwrnod o hwyl a chwerthin. Eleni, Clwb Rygbi Llambled oedd y lleoliad, lle cafwyd diwrnod bendigedig. Diolch i Mared a Huw Bryant am drefnu'r gemau a'r gerddoriaeth.

I Llanddewi y teithiodd pawb ar gyfer y gystadleuaeth Chwaraeon dan do ar y 25ain o Ebrill. Llond lle o aelodau'n cystadlu mewn chwaraeon amrywiol. Dyma'r rhai a ddaeth i'r brig: Dartiau Bechgyn: Guto Jones, C.Ff.I. Llanwenog; Dartiau Merched: Mared Lloyd Jones, C.Ff.I. Llanddewi Brefi; Dartiau Dwbl: Daniel Morgans a Guto Jones, C.Ff.I. Llanwenog; Snwcer: Gareth Jones, C.Ff.I. Llanddewi Brefi; Pŵl: Owain Pugh, C.Ff.I. Llanddewi Brefi; Tennis Bwrdd Bechgyn: Geraint Davies, C.Ff.I. Mydroilyn; Tennis Bwrdd Merched: Sophie Hall, C.Ff.I. Bro'r Dderi; Tennis Bwrdd Dwbl: Rhodri a Deiniol Organ, C.Ff.I. Troedyrur; Drafftiau: Ffion Lewis, C.Ff.I. Llanddeiniol; Tip-it: Bleddyn Machynlleth Jones, Ifan Davies, Hefin Ebenezer, C.Ff.I. Llangeitho; Dominos: Daniel Phillips, C.Ff.I. Troedyrur.

Felly, ar ddiwedd y cystadlu, yn gyntaf roedd Llanddewi Brefi, yn ail, Mydroilyn ac yn drydydd oedd Troedyrur a Llanddeiniol. Llongyfarchiadau i bawb.

Teithiodd nifer o'r Sir i Gyfarfod Blynnyddol FfCCFf yn Blackpool. Ymunodd criw o Geredigion â'r 5,500 o aelodau Cenedlaethol yn y Winter Gardens - record newydd! Dyma benwythnos pwysig i'r mudiad - cystadlaethau, adloniant a phenderfyniadau, ac mae'n bwysig cael cynrychiolaeth o'n sir fach ni yno. "Penwythnos i'w chofio," meddai un aelod a fu yno'n mwynhau.

Daeth hanner cyntaf cystadleuaeth Chwaraeon y Sir unwaith eto, a dyma beth oedd dydd Sadwrn braf! Gwenodd yr haul ar y cystadlaethau hoci cymysg, pêl-rwyd, pêl-droed, rownderi a 'dodgeball.' Bydd ail hanner y gystadleuaeth yn cymryd lle ym mis Gorffennaf, ac fe gewch chi'r hanes a chanlyniadau'r holl gystadlaethau wedi hyn.

Mae'n dymor y Rali nawr, ac mae'r clybiau i gyd yn brysur yn paratoi ar gyfer y diwrnod mawr. Peintio, adeiladu, ymarfer, cwrso a threfnu. Mae C.Ff.I. Llanwenog yn brysur yn trefnu ac yn barod i groesawu pawb i fferm Llechwedd, Llanwenog. Pob lwc i bawb!



Einir Ryder, Cadeirydd CFfI Ceredigion.



Meryl Davies, Llysghenhades CFfI Sir Gâr yn traddodi ei haraith yn y Rali.

I Ddod...

Rali'r Sir: Dydd Sadwrn y 7fed o Fehefin ar fferm Llechwedd, Llanwenog. Gymanfa'r Rali: Nos Sul yr 8fed o Fehefin yng nghapel Brynhafod, Gorsgoch.

Rygbi 7 bob ochr: Nos Wener yr 20fed o Fehefin yng Nghlwb Rygbi Aberaeron.

Chwaraeon C.Ff.I. Cymru: Dydd Sul yr 22ain o Fehefin yn Aberystwyth.

SPLASH: Dydd Sadwrn yr 28ain o Fehefin ym Maesllyn, Tregaron. Amserlen - 10.00: Duathlon (21milltir); Adloniant i'r plant (Pentre Bach, Peintio wynebaw, castell bownsio...); 13.00: It's a Knockout. Tîmoedd o 6. 16.00: Sesiwn Acwstig; 19.00: DJ Bry, Lady Gaga Tribute Act, #band6, Chip Shop Boys £12;

Athletau'r Sir: Nos Fercher yr ail o Orffennaf yn Aberaeron.

Clwb 200: 1af: Teulu Hafan, Llanddeiniol. 2ail: C.Ff.I. Penparc. 3ydd: Huw ac Ann Tudor, Tynberllan, Llanilar.

Sarn Helen



Ras 10K llwybr ym Mhontarfynarch gyda Huw Price yn gorffen y ras mewn 46:28 ac yn gyntaf d50, Caryl Davies 49:25, a Eleri Rivers 51:11 ac yn drydydd m40, yn ras yr hanner marathon Glyn Price yn gorffen mewn awr 35:4 ac yn gyntaf d45 Tony Hall 1:53:24 ac yn gyntaf m55, Calvin Williams 1:57:23, Kevin Hughes 1:58:09 Nigel Davies 2:00:51, Aneurin James 2:00:54. Yn ras y plant roedd yn bencampwriaeth llwybr Cymru a Ffion Quan yn gorffen yn gyntaf mewn 19:14 gyda Caitlin Page yn ail 19:24. Cystadlodd Grace Page yn y ras dan 15 ac yn gorffen mewn 13:39.

Gŵyl Banc Mai roedd ras hwyl Cwrtnewydd, Jamie Biggs yn ennill y ras bedair milltir mewn 23:40, 2il Glyn Price Sarn Helen d40 23:55, 3ydd Simon Hall Sarn Helen 25:00 ac yn gyntaf dynion agored, 2il dynion agored Sion Lewis Carmarthen Harriers 25:43, 3ydd Carwyn Davies Sarn Helen 25:51, 3ydd d40 Chris Schroder Sarn Helen 25:47. 1af d50 Mark Dunscombe Sarn Helen 26:24, 2il Paul McDermott Sarn Helen 26:43, 3ydd Calvin Williams Sarn Helen 27:25. Helen Willoughby Sarn Helen enillodd ras y menywod 29:01, 2il m45 Dawn Kenwright Sarn Helen 30:03, 3ydd a cyntaf m35 Eleri Rivers Sarn Helen 30:49, 2il f35 Heather Hughes 35:13, 3ydd Wendy Evans 35:40, 3rd m45 Jane Wilkins Cardigan 32:53, 1af menyw agored Kate McDermott Sarn Helen 31:25, 2il Caryl Rees 33:17, 3ydd Helen Davies 35:24:89. Aeth y tîm i Sarn Helen Glyn Price, Simon Hall, Chris Schroder, Carwyn Davies. Llywelyn James Sarn Helen enillodd ras plant 1500 medr mewn 5:40, 2il Daniel Jones Sarn Helen 5:46, 3ydd Harry Worth Pembs Harriers 6:05, ac yn gyntaf nôl yn ras y merched Beca Ann Jones Sarn Helen 6:33, 2ydd Seren James Sarn Helen 6:38, 3ydd Lucy Davies Bro Pedr 6:51. Aberystwyth AC Aled Sion Jones yn ennill ras 3000 medr yn 11:49, 2il Thomas Willoughby Sarn Helen 12:55, 3ydd Tomos Morgans Ysgol Y Preseli 13:25, ac yn gyntaf yn y merched Emily McKenzie Caerfyrddin 14:15, 2il Rachel Priddey Ysgol Gyfun Emlyn 14:35, a 3ydd Naomi Howell Sarn Helen 15:25.

Neyland sir Benfro oedd ras 10K coffa Jan Younger a Dylan Lewis yn ennill y ras mewn 36:35, Mitchell Readwin 47:35 a Allen Watts 1:40:30.

Roedd yr haul yn gwenu i ras Sarn Helen 16.5 o filltiroedd a gychwynodd o Glwb Rygbi Llambled, draw am Gellan, lan rhiw serth Talyfan ac allan

i Esgair Goch, lawr i Ffarmers, ac i fyny 'graig trwrch', lawr gwared Pal i Lanfair Clydogau, a nôl dros coedwig Longwood. Cafodd y ras ei noddi gan Simon Hall, cigydd, Stryd y Coleg, Llambled, Teifi Forge Cyf, Cwmann a Dŵr Ty nant. Rhoddwyd y gwobrau gan Eric a Carol Rees.



Rhedwyr Sarn Helen yn Ras Cwmann.

Jon Bowie Mercia fell runners enillodd y ras mewn 1:51:29, 2il Mike Evans Trots 1:53:5, 3ydd a 1af d40 Richard Johnson Mynydd Du 1:54:28, 2il d40 Glyn Price Sarn Helen 1:57:10, 1af d50 Peter Osborne Llanelli 2:04:03, 2il Dave Powell Aberystwyth AC 2:13:40. Jackie Lee Eryri Harriers m35 enillodd ras y menywod 2:07:32 yn safle 14ydd, Shan Roberts TROTS 1af m45 2:14:41, 2il Dawn Kenwright 2:34:39, 1af m35 Meinir Jones Run 4 All 2:16:41, 2il Rachel Evans Run 4 All 2:30:44, 1af menywod agored Caryl Davies Sarn Helen 2:30:55, 2il Katie McDermott Sarn Helen 2:38:09.

Ras milltir a hanner i blant, categori dan 15 bechgyn 1af Aled Jones Aberystwyth AC 11:24, 2il Thomas Willoughby Sarn Helen 12:58, 3ydd Tomos Morgans Ysgol Preseli 13:06, 1af merched Grace Page 13:29, 2il Danielle Lewis Amman Valley Harriers 14:04, 3ydd Emily McKenzie Carmarthen Harriers 15:10. Ysgol gynradd 1af Llewelyn James Sarn Helen 11:47, 2il Daniel Jones Sarn Helen 11:55, 3ydd Gwion Griffiths Payne Sarn Helen 13:29, 1af merch Beca Roberts Sarn Helen 13:08, 2il Seren James Sarn Helen 14:12, 3ydd Gwenllian Llwyd Sarn Helen 16:17. Sarn Helen dynion yn gyntaf yn y tîm Glyn Price, Simon Hall, Gethin Jones a Mark Dunscombe. Ras gyfnewid yn gyntaf oedd Mark Rivers, Gemma Hope a Trystan Potter mewn amser 2:26:41. Cwpan sialens Pattersons yn mynd i Eleri Rivers.

Ras nesa'r clwb fydd Ras Hwyl Felinfach ar nos Wener 27 o Fehefin i gychwyn gyda'r plant am 6.30 o'r gloch gyda'r oedolion am 7.30 y.h.

Cwrtnewydd

Priodas

Priodas dda i Gwenno a Delme, Ty Crydd ar achlysur eu priodas ar ddechrau mis Mai. Pob dymuniad da i chwi.

Adref yn ôl.

Braf yw gweld June yn ôl yn ei chartref yn Cledlyn Park yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty.

Cydymdeimlad

Yn ystod y mis clywyd am farwolaeth Gerwyn Davies, Tynfron, priod annwyl Kate a thad a thadcu hoffus iawn i'w blant a'i wyrion. Bu'r angladd yn gyhoeddus yng Nghapel Seion ac yna claddwyd ei weddillion ym Mynwent Capel Brynhafod Gorsgoch. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ysgol Cwrtnewydd

Croeso cynnes i Ms Carol Davies ein pennaeth newydd i'r ysgol. Fe fydd hi'n bennaeth ar Ysgol Llanwenog, Ysgol Cwrtnewydd ac Ysgol Llanwnnen. Croeso hefyd i Mrs Nerys Vobe a Mrs Meriel Davies i'n plith. Fe fyddan nhw'n rhannu swydd yn y cyfnod sylfaen tra bod Mrs Hannah Thomas i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth. Mae Miss Ceris Quan, myfyrwraig o Goleg y Drindod yn dysgu yn Nosbarth Cyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd. Pob lwc iddi hi ar ei hymarfer dysgu.

Hoffwn groesawu disgyblion newydd - Nerys Williams a Macauley Brownhill, dau ddisgybl newydd i ddosbarth y cyfnod sylfaen. Maen nhw ar eu tymor cyntaf yn ysgol gynradd Cwrtnewydd ac yn barod wedi ymgartrefu yma. Gobeithio y byddan nhw'n parhau i fwynhau gyda ni.

Adroddiadau gan Hanna Davies ac Alaw Jones.

Yn ystod mis Ebrill roedd trawsgwlad rhanbarth Ceredigion yr Urdd yn gael ei gynnal ar gae clwb rygbi Aberaeron. Yn cynrychioli'r ysgol roedd Arwel Williams, Beca Jenkins, Carwyn Davies, Catrin Schröder, Lois Jones, Alaw Jones, Lisa Jenkins a Luned Jones. Hoffwn longyfarch Alaw Jones ar gipio'r 6ed safle. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn Aberaeron a diolch hefyd i'r rhieni hynny a wnaeth ein cludo ni yno.

Adroddiad gan Luned Jones Caitlin Gibbons Beca Jenkins.

Cafodd blynyddoedd 5 a 6 gyfle i gael gwersi beicio yn ddiweddar. Derbyniodd pawb dystysgrif a braf nawr yw meddwl ein bod ni i gyd yn barod i wynebu'r ffordd fawr yn ddiogel!

Adroddiad gan Libby Waterman a Sophie Weedon.

Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, cynhaliwyd ein gweithgareddau



Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Cwrtnewydd yn cael gwersi beicio.



Grŵp Morwyr Bach Ysgol Cwrtnewydd a fuodd yn fuddugol yn y Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd - Elan Jenkins, Jac Rees, Ellis Jenkins a Megan Davies.

blynyddol Calan Mai. Ein llywyddion am eleni oedd Mr a Mrs Hefin Jenkins, Cathal. Diolch i Hefin am ei araith pwrpasol ac i'r ddau am eu rhodd haelionus. Roedd tua 170 o redwyr wedi cymryd rhan a llongyfarchiau mawr i bawb ac i'r plant hynny a gafodd dariannau yn adran Ysgol Cwrtnewydd. Dyma ganlyniadau ras y bechgyn - Arwel Williams 1af, Carwyn Davies 2il a Zachary Wroe 3ydd. Yr enillwyr gyda'r merched oedd Catrin Schröder 1af, Lois Jones 2il a Beca Jenkins 3ydd. Daeth tyrfa luosog ynghyd a chodwyd swm sylweddol o £4,777. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth sicrhau llwyddiant arbennig y diwrnod.

Adroddiad gan Lleucu, Phoebe a Nathaniel.

Gan bod Ysgol Cwrtnewydd yn cael ei defnyddio fel Gorsaf Bleidleisio, bu'n gyfle i ni blant yr ysgol i fynd am drip. Aethom i Ganolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn i chwarae gemau'r Gymanwlad ac am ymweliad i Ganolfan Cwrwgl Cenarth. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw!

Adroddiad gan Zachary Wroe, Ffion Williams a Lisa Jenkins.

Daeth newyddion ardderchog i'n ysgol pan ddeallwyd fod Elan Jenkins, Elis Jenkins, Megan Davies

a Jac Rees wedi ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth celf yr Urdd. Cystadleuaeth 3D oedd honno ac fe wnaeth y grŵp 'Y Morwyr Bach' yn fendigedig chwarae teg. Da iawn chi!

Cafodd plant yr ysgol gyfle i gymryd rhan mewn tasg a osodwyd gan Fardd y Plant sef Aneirin Karadog. Gofynnwyd i ysgolion Cymru gyfansoddi cerdd fer am eu hardal. Cerdd Hanna Davies a ddewiswyd o'n hysgol ni a daeth newyddion da i'n clustiau pan glywsom bod ei cherdd wedi cael ei dewis gan Aneirin Caradog. Da iawn hi! Fe fydd Hanna yn adrodd ei cherdd o'r sgrin fawr ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Adroddiad gan Arwel Williams, Nia Morgans a Jenna Wilson

Cafwyd noson o arddio a braf oedd gweld cymaint o blant, rhieni a ffrindiau'r ysgol yn dod i dorchu llewys, felly erbyn hyn mae'r ardd wedi ei phlanu a braf yw gweld ambell wrisg taten yn pipo!

Mae Catrin ac Arwel wrthi yn wythnosol yn creu gweithgareddau ar gyfer y plant i ddysgu a datblygu sgiliau ar gyfer chwaraeon. Braf yw gweld pawb wrthi yn ymuno o'r lleiaf i'r hynaf. Hefyd mae'r ddau wedi cael cyfle i ddilyn baton Gemau'r Gymanwlad dros wyliau hanner tymor yn Aberaeron.

Gardd ar agor

yn Rhiwson Isaf, Drefach, Llanybydder SA40 9TA

Dydd Sul, 6ed o Orffennaf

11.00y.b - 6.00y.h.

Planhigion ar werth
Lluniaeth ar gael

Mynediad £3.50
Plant am ddim

Cantref

Llefydd gwag am Aelodau Bwrdd

Eich cyfle i wneud gwahaniaeth

Mae Aelodau'r Bwrdd yn goruchwyllo gwaith y gymdeithas, pennu strategaeth a chyferiad ein busnes, ac yn sicrhau darpariaeth barhaus gwasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy ac o ansawdd da ar draws ardal weithredol y pedwar awdurdod lleol.

A oes gennych unrhyw un o'r sgiliau sy'n dilyn:

Busnes
Masnachol
Cyfreithiol
Archwilio

Os oes, cysylltwch â Amanda ar 01239 712 034 neu ewch i'n gwefan www.cantref.co.uk am fwy o wybodaeth.

Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin, 2014.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

CYNORTHWYDD SWYDDFA

Dyma swydd rhan-amser, tri hanner diwrnod yr wythnos, wedi ei lleoli ym Mhrif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth.

Bydd y sawl a benodir yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau swyddfa cyffredinol. Cyflog £12,746 - £13,564 (pro-rata).

Ceir ffurflen gais a manylion pellach o Swyddfa UCAC. Cysyllter ag Elaine Edwards, os dymunwch sgwrs anffurfiol.

Bydd angen dychwelyd y ffurflen gais at E. Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol, Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2EU erbyn CANOL DYDD, DYDD LLUN 23 MEHEFIN

01970 639950 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE

01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosffwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlyisiau,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn

10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Ar gau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,
Llanbed

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

Hyfforddiant Clonc a Golwg360

Dewch i helpu creu hanes!

Cynllun i greu gwasanaeth newydd sgwrsio, gwybodaeth a newyddion i ardal Clonc

Mae Clonc a Golwg360 yn cydweithio ar gynllun newydd sbon i geisio creu gwasanaeth newydd Cymraeg ar-lein i holl bobol, clybiau a chymdeithasau'r cylch, o bob oed.

Os bydd yn llwyddo bydd yn torri tir hollol newydd ac yn rhoi lle ar y we i ni rannu gwybodaeth, negeseuon a newyddion a helpu i gryfhau bywyd cymdeithasol a bywyd Cymraeg yr ardal.

Os 'ych chi eisie gwybod mwy a chymryd rhan, mae gwahoddiad cynnes i chi ddod i holi a thrafod y prosiect newydd a dysgu rhagor am sut y gallwn ni ddefnyddio'r gwefannau cymdeithasol fel Twitter a Facebook er lles ein hardal.

Dewch i gaffi yr Hedyn Mwstard yn Llanbedd brynhawn dydd Mawrth Mehefin 24 o 3.00 pm ymlaen.

Fe fydd nifer o sesiynau gwahanol:

15.00-17.00 - jyst galwch heibio i gael sgwrs anffurfiol am y syniad ac am ddefnyddio'r dechnoleg newydd ... a rhoi cynnig ar rai o'r cyfryngau. Does dim angen gwybodaeth, dim ond diddordeb!

18:00 - Cyflwyniad i syniad y gwasanaeth newydd - Dylan Iorwerth a Dylan Lewis

18:30 - Pa gyfrwng? Cyflwyniad i Twitter, Facebook, YouTube a'r cyfryngau eraill ellir eu defnyddio i rannu gwybodaeth a newyddion

19:30 - Trafodaeth agored ynglŷn â gwasanaeth newyddion lleol iawn Cymraeg yn Llanbedd - dan arweiniad Dylan Iorwerth

20:30 - cyfle i sgwrsio'n anffurfiol ynglŷn ag unrhyw beth sydd wedi codi.

Dewch draw i helpu Llanbedd i gymryd cam mawr arall ymlaen ... a bydd dished a chacen yn eich aros!

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Dylan Iorwerth neu Owain Schiavone yn Golwg360 ar 01570 480526 neu ymholiadau@golwg.com

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Carys Davies 07890 883346

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FFW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ffurfiol gan
Awdurdod y Gwasanaethau Awdurdod, yng nghyfraith Cymru a Lloegr,
a dan reol Cymdeithas 2006.

Gwersi Gitar:

Hafod Wen, Pwllswyddog,
Tregaron, SY25 6JG.

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367

Adloniant



Ar y 1af Ebrill roedd Cwmni Branar o'r Iwerddon yma'n cyflwyno Clann Lir (Plant Llŷr) - stori gyda phypedau ac ar y 4ydd Ebrill bu Cwmni Ceol Connected eto o'r Iwerddon yn cyflwyno 'The Quiet Tree', y perfformiadau yn rhan o Wyl Agor Drysau Arad Goch.

Nos Wener, 4ydd Ebrill cafwyd arbrawf yma, sef dangosiad o Ffilm Hedd Wyn. Roedd y criw bychan a oedd yn bresennol wedi gwir fwynhau'r ffilm. Roedd y ffilm wrth gwrs yn gosod y cyd-destun am Y Rhyfel Mawr gogyfer ag ymweliad Theatr Bara Caws y nos Fawrth canlynol, sef 8fed Ebrill lle roeddent yn perfformio ei reffiw newydd Dros Y Top.

Ar Nos Sadwrn, 12fed Ebrill cafwyd 'Noson o Ddawns' gan Gwmni Dawns Iau a Chwmni Dawns Ieuenctid Ceredigion. Dros yr wythnosau diwethaf roedd criw o 35 o ddawnsywyr ifanc o amrywiol ardaloedd yng Ngheredigion wedi bod yn dod i ymarfer ar benwythnosau yn y Theatr gogyfer â'r perfformiad terfynol. Cafwyd cynulleidfada deilwng o bron i 100 yn gwylio Cwmni Dawns Iau Ceredigion (7-11 oed) yn perfformio 'Dawns y Dail' sef dehongliad o gerdd T. Llew Jones, ac roedd Cwmni Dawns Ieuenctid Ceredigion (11-18 oed) yn perfformio 'Dim Rheolau', sef dehongliad o stori wreiddiol yn gofyn y cwestiwn, 'Ydy ni'n gallu byw heb reolau? Beth fydd y canlyniadau?' Roedd y noson yn llwyddiannus iawn.

Am unrhyw wybodaeth bellach am brosiectau dawns cysylltwch â: Catherine Young, Swyddog Dawns, Theatr Felinfach. Catherine.Young@ceredigion.gov.uk 01545 57(2708).

Bu Theatr Genedlaethol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Theatr Felinfach. Mae'r cyfnod wedi bod yn broses addysgol werthfawr iawn i bawb ac yn gychwyn gobeithio ar bartneriaeth a fydd yn tyfu yn gryf a chadarn i'r dyfodol.

Ar nos Wener, 11eg Ebrill cafwyd noson ddifys iawn yn nhafarn Y Vale - Noson 'Sgwennu Newydd gyda chwmni Protest Fudur yn arddangos 6 drama fer newydd sbon. Roedd hi'n noson i ysbrydoli 'sgwennwyr lleol ac i gychwyn ar drafodaethau gyda staff Theatr Genedlaethol Cymru sydd yn edrych am bobl fel chi i 'sgwennu, ac i fod yn adolygwyr cymunedol ac sydd eisiau dysgu sgiliau newydd, yn adolygu dramâu, llenyddiaeth neu ffilm.

Cafwyd noson wych i'r teulu yn Neuadd Dihewyd ar Nos Iau, 17eg o Ebrill yn y noson ar 50au. Roedd y neuadd wedi ei haddurno mewn steil 'retro' gyda gemau 'slawer dydd i ddiddanu'r plant, cyfle i ymweld â'r Parlwr Pincio lle'r oedd Catrin o salon Dere i Dorri yn trin gwalltiau ni'r merched yn steil y 50au - 'Victory Rolls, French Rolls a Chignons'. Cafwyd digon o ddawnsio i gerddoriaeth y grŵp lleol NEWSHAN, a lluniau doniol i gofnodi'r noson gan Rent-a-booth Cymru. Roedd pawb yn dod â bwyd a diod eu hunain a chafwyd amser da dros ben.

Beth sy' Mlaen yn y Theatr?

- 13 Mehefin - Lansiad Llyfr Aneurin Davies - 'Bywyd wrth Ben-ôl Buwch' am 7.30yh - mynediad drwy wahoddiad
- 14 - 15 Mehefin - Penwythnos CADW SŴN - Cyfle gwych i weithio gyda chriw profiadol i bobl ifanc ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9 10.00yb - 5.00yp
- 19, 20 a 21 Mehefin - GWYN gan Gwmni'r Fran Wen i blant oedran 2 - 7
- 4 Gorff - Cyngerdd Côr Ffederasiwn Sefydliad Y Merched Ceredigion.
- 12 Gorff - CLWB DRAMA - lansiad ar ei newydd wedd.
- Cofiwch hefyd am sesiynau TIC TOC bob bore Gwener yn ystod y tymor am 10.00yb - sesiynau stori, dawns a chân i rieni a phlant am £3.00.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini newydd
Clwb Rygbi Llambd yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 - 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach.



Lift
cyfleus
nawr yn ei le
i fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Beth am ddyblu eich aelodaeth o Glwb Clonc?

Mae'n amser i ymuno â Chlwb Clonc unwaith eto. Y ffordd fwyaf cyfleus o wneud hynny yw talu drwy archeb banc. Mae ffurflen ar dudalen 23. Diolch yn fawr i bawb sy'n cefnogi bob blwyddyn.

Dim on £5 yw aelodaeth. Beth am brynu gwerth £10 neu £20? Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Rhoddir **bag siopa poced newydd Clonc** i bawb sy'n ymaelodi o'r newydd, ac i aelodau blynyddol sy'n cynyddu aelodaeth a thalu drwy archeb banc.



CANOLFAN ADDURNO

AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedd Pont Steffan
01570 423156

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Llongyfarchiadau i'r disgyblon canlynol am eu llwyddiant yn Eisteddfod Capel y Groes dros wyliau'r Pasg. Cafodd Molly, Hafwen a Luke gydradd cyntaf am greu darn o farddoniaeth yn dwyn y testun "Fy ffrind". Da iawn wir!

Âr tywydd yn ffeinhau, daeth y cyfle i fynd allan i'r ardal allanol a thwtio tipyn ar yr ardd. Diolch yn fawr i Mamgu ac hefyd Mam Tyler a Joe Walker am ddod i fewn i'r Ysgol i roi o'i hamser prin i'n helpu. Cafodd Bwgan Brain ei greu gan y plant lleiaf, yn barod i hala ofn ar yr adar! Braf yw gweld y plant oll yn mwynhau datblygu'r ardd a dysgu a gweld sut mae planhigion yn tyfu.

Diolch yn fawr i Ficer Suzi am ddod i fewn i'r Ysgol i siarad am ei gwaith fel Ficer. Mae'r plant lleiaf yn astudio "Arweinwyr" fel thema yn eu gwaith addysg grefyddol.

Fe fydd Ffair Haf yr Ysgol yn cael ei chynnal ar Fehefin yr 20fed. I ddechrau am 4 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad

Yn ddiweddar bu Eleri Jones, Dyffryn yn yr ysbyty yn cael triniaeth lawfeddygol. Gobeithio eich bod yn teimlo lawer yn well erbyn hyn. Hefyd bu Beryl Lewin, Harlech yn cael triniaeth i'w llygaid – gobeithio eich bod chwithau hefyd lawer yn well.

Y Gymdeithas Hŷn

Taith i Henffordd oedd trip mis Mai, a chafwyd diwrnod braf o fore hyd nos. Aros am 'baned ym Mhontsenni, cyn mynd ymlaen i Henffordd, a phawb i wneud fel y mynont yn eu hamser eu hun. Ymwelodd nifer â'r Gadeirlan, gan weld ei thrysorau, yr hen Dŷ yn dyddio nôl i'r unfed ganrif ar bymtheg, ac sydd nawr yn amgueddfa fychan, ond yn cofnodi fel y byddai'r tŷ yn ei hamser. Mae siopa yn rhan bwysig o drip fel yma hefyd, ac roedd digon i wneud a'u gweld.

Arhoswyd yn y Tŷ Gwyn ger Pontsenni ar y ffordd adre am swper i gwblhau'r diwrnod. Bydd y daith



Siwan Davies a enillodd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Rhydlewis gyda Dai Rees Davies un o drefnwyr yr eisteddfod.

nesaf Dydd Mercher, Mehefin 11eg i Sir Drefaldwyn ac ardal hanesyddol Ann Griffiths yr emynyddes.

Diolch

Dymuna Carwyn a Gwennan Jenkins ddiolch o galon am y dymuniadau, cardiau ac anrhegion ar achlysur eu priodas.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhian a Jason, ar enedigaeth mab bach, Lucas Sion yn ddiweddar. Hefyd i Jackie a Hefin, Gwel y Dyffryn ar ddod yn fam-gu a thad-cu ac i Mrs Mair Davies, 2 Highmead Cottages ar ddod yn hen-famgu unwaith eto.

Llongyfarchiadau Eisteddfodol

Bu Hanna a Megan Davies, Ger y Nant ac Elen a Fflur Morgan, Rhyd y felin yn llwyddiannus mewn gwahanol Eisteddfodau yn ystod y Gwanwyn – llongyfarchiadau a phob lwc eto i'r dyfodol.

Eglwys Santes Gwenog.

Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg ar y 9fed o Ebrill. Agorwyd y noson â gweddi gan ein Ficer y Parch Suzy Bale. Trafodwyd a chadarnhawyd y cyfnodion a'r fantolen. Diolch i Keith a Lynne Goodall am eu gwaith trylwyr fel ysgrifennydd a thrysorydd. Ail etholwyd y swyddogion canlynol:- Wardeniaid – Mr Keith Godall a Mr Bryan Lewis. Ysgrifennydd – Mr Keith

Goodall; Trysorydd – Mrs Lynne Goodall. Cynrychiolwyr cyfarfodydd y Ddeoniaeth – Mrs Wendy Mellor a Mrs Pauline Roberts-Jones. Diolchodd y Ficer i bawb am gydweithio brwdfrydig gan sicrhau dyfodol diogel yr Eglwys. Yr ydym yn dal i ddisgwyl am ganllaw ar hyd y llwybr o'r iet hyd borth yr eglwys ac am drwsio a diogeli wal a llwybr isaf y fynwent.

Ar y 10fed o Fai priodwyd Gwennan Davies, Llysdery i Carwyn Jenkins, Llambled. Llongyfarchiadau cynnes iawn iddynt a phob bendith. Llongyfarchiadau hefyd i Siwan Davies, Llysdery ar ennill 'Tlws yr Ifanc' yn Eisteddfod Rhydlewis. Bu Fflur Morgan, Rhyd-y-Felin yn llwyddiannus yn Eisteddfod Bryngwenith yn ennill y wobr gyntaf ar yr unawd a'r llefaru dan 6 oed.

Cafwyd noson hwylus yn chwarae Bingo yng Nghefn Hafod, Gorsgoch. Diolch i Mr a Mrs Geraint Hatcher am eu croeso arbennig. Ar y 10fed o Fehefin cynhelir cyfarfod agored i bawb yn Neuadd y Pentref Drefach am 7.30 y.h. i drafod Gwasanaeth i gofio am y Rhyfel Byd Cyntaf. Dewch ag unrhyw syniadau neu hanesion am y cyfnod erchyll yma.

Mae'r Ficer yn trefnu Pererindod ar y 29ain Fehefin i ymweld ag Eglwys y Carcharorion yn Henllan. Manylion pellach gan y Ficer.

Clwb 100 yr Eglwys - 1.Ethan Abbot (Rhiwson Isaf) 2. Gary Davies 3.Jen Clive-Powell.

Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Cyng. Geraint Hatcher, Clerc: Gwennan Davies

Bydd gwasanaeth coffa Canmlwyddiant Rhyfel Byd Cyntaf yn Eglwys y Plwyf, Llanwenog brynhawn Sul 10 Awst 2014 am 2.00yp a Thê Cymreig i ddilyn i gofio am y 40 a mwy o wŷr a aeth o Blwyf Llanwenog i ymladd dros eu gwlad. Y bwriad yw cynnal gwasanaeth yn yr Eglwys a chreu arddangosfa o hen luniau, llythyron o'r rhyfel, gwisgoed, medalau neu unrhyw straeon sydd gyda chi i'w rhannu. Os oes gyda chi unrhyw wybodaeth cysylltwch â Mary Thomas, Ffosffald ar 01570 434 200 neu mae croeso ichi ddod i'r cyfarfod nesaf ar y 10fed o Fehefin am 7.30yh yn Neuadd Drefach.

Cofiwch os ydych am hysbysebu eich digwyddiad ar y wefan rhwch wybod i'r Clerc. Cyfeiriad y wefan yw www.cyngorllanwenogcouncil.org.uk

Diolch i Gadeirydd y Cyngor Cymuned Geraint Hatcher am drefnu'r Daith Dros Fywyd er budd Sefydliad Aren Cymru o Dafarn Cefn-Hafod dros Rhos Ymryson, i lawr i Bryngrannod, draw i Gwrtnewydd ac yn ôl i'r dafarn am damaid blasus i'w fwyta – taith o 7.7milltir! Diolch o galon i Eiddwen Hatcher am baratoi gwledd a chwpanaid o de i ni ar ddiwedd y daith. Ymunodd 45 o bobl o bob oed â'r daith a chasglwyd dros £1,200.00 at elusen Sefydliad Aren Cymru. Bore bendigedig o gymdeithasu!

Croeso cynnes a llongyfarchiadau i Mrs Helen Howells, Ty Cam ar gael ei hethol i Gyngor Cymuned Llanwenog. Mae Helen wedi ymgatrefu yn Nhy Cam ers sawl blwyddyn bellach ac yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru o ddydd i ddydd. Mae'n gyn-aelod gweithgar o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog a Cheredigion. Mae'n briod â Peter ac mae ganddynt fab o'r enw Steffan Hedd a thrwy hyn mae'n weithgar gyda'r Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi yn y Plwyf. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael Helen yn rhan o'r tîm. Llongyfarchiadau hefyd i'r Cyng Geraint Davies ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor Cymuned.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		5			
	9	6			3
			3	1	2
	6			3	8
5	2		8		6
	4	1		2	
4	7	3	6		
	6			4	7
				5	

Atebion Swdocw mis Mai:

Llongyfarchiadau i Elsa Thomas, Llys Myrddin, Caerfyrddin, ac i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder a Hugh Evans, Coedparc, Llanybydder.

7	6	1	5	3	8	9	2	4
3	2	8	4	9	7	6	1	5
9	5	4	2	1	6	7	3	8
2	8	7	3	5	9	1	4	6
1	3	5	7	6	4	8	9	2
4	9	6	1	8	2	3	5	7
8	7	3	9	4	5	2	6	1
6	4	9	8	2	1	5	7	3
5	1	2	6	7	3	4	8	9

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Toriad Taclus

Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llangybi

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Sioned
Evans, 5 Godre'r Coed, Olmarch,
ar basio arholiad piano Gradd 3 yn
ddiweddard. Mae Sioned yn cael ei
hyfforddi gan Mrs Alwena Williams,
Abermeurig.

Capel Maesyffynnon

Bydd Cyngerdd Blynnyddol Capel
Maesyffynnon yn cael ei gynnal ar
nos Sul, Mehefin 29ain am 7.30y.
h gan Gôr Sefydliad y Merched
Ceredigion [WI] yn artistiaid. Y
wraig wadd fydd Mrs Heulwen Price
o Lanymddyfri [Olmarch Fawr gynt]
Elw tuag at y capel. Tocyn £5.

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Fai 2il
yn Ysgol y Dderi gyda'r llywydd
Janet Farrow yn llywyddu a hi fu
yn croesawu pawb gan gynnwys y
wraig wadd sef Sue Page a fu yn
brysur iawn yn dangos ei dawn i
drefnu blodau. Cawsom arddangosfa
liwgar ganddi ac mae'n gefnogwraig
frwd i 'Help the Heroes'. Rhoddwyd
pleidlais o ddiolch wresog iddi
gan Sally Davies. Fe roddwyd y tri
trefniant ynghyd a gwobrau eraill
ac fe'u henillwyd gan Joyce Harris;
Rowena Williams; Dilys Godfrey;
Ann Bennet; Gwenda Thomas;
Morina Davies; Maisie Morgans;
Glenys Lloyd; Janet Farrow; Alunda
Jones a Joan James.

Cynhelir y trip blynnyddol ar
Fehefin 6ed pryd yr ymwelir ag ardal
Llangollen. Enwau i Sally ar frys.

Mae eisiau syniadau am siaradwyr
i gyfarfodydd y tymor nesaf.

I ddiweddu y cyfarfod cafwyd
paned o de a bisgedi wedi ei rhoddi
gan Morina Davies a Rowena
Williams.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i
Jen Mathias a gafodd lawdriniaeth
yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Coedwig Cymunedol Long Wood yn cynnig cyfle i ddysgu sgiliau adeiladu cynladwy.

A ydych am ddysgu sgiliau
adeiladu cynladwy. Yna ymunwch
gyda ein tîm o wirfoddolwyr o
Ddydd Llun 9ed o Fehefin i ddydd
Gwener y 13eg o Fehefin. Yr ydym
yn gwahodd mwy o wirfoddolwyr
i gynorthwyo gyda adeiladu'r
Ganolfan Ymwelwyr yng Ngoedwig
Long Wood.

Fe wnewch ddysgu adeiladu gyda
gwellt, defnyddio 'Hempcrete' a
gwaith coed traddodiadol. Does
dim angen profiad amoch bydd
hyfforddiant a goruchwyliaeth ar
gael gan y gŵr profiadol, Jamie
Miller. I sicrhau lle ar unrhyw un
o'r dyddiadau yma. Cysylltwch â
Jamie Miller ar 07530 832 356 neu
e bostiwch jbmwoodcraft@yahoo.
co.uk

Yn y Gegin gyda Gareth



'Pacio Picnic Papur Bro'.

Gan obeithio am dywydd braf ym mis Mehefin – y mis yr ydym yn
naturiol yn meddwl am fwyta allan yn yr awyr agored. Gwneud y gorau,
gobeithio, o wres yr haul, boed yn yr ardd, ar y mynydd neu'r traeth.

Beth allai fod yn well na basgedaid picnic yn llawn o rysetiau allan o'ch
papur bro. Maent yn rhwydd ac yn gyflym i'w paratoi gan ddefnyddio
cynhwysion bob dydd, ac hefyd yn rhwydd i'w cludo.

Pob hwyl i chi wrth bacio eich picnic – mwynhewch.

O'r gegin'

Gareth.

'Tortilla Tato'.

Cynhwysion

4 taten fawr wedi'u plicio
Un llond llwy fwrdd o olew'r Olewydd
2 winwnsyn mawr wedi'u sleisio
Un llond llwy bwdin o siwgwr mân
Dwy lond llwy fwrdd o rosmari
75gm o gaws feta
4 ŵy wedi'u curo




Dull

1. Trowch y ffwrn i 170°C. Sleisiwch y tato a'u berwi nes yn dyner.
Cynheswch yr olew mewn padell ffrio, a ffrwch y winwns am tua
8 – 10 munud gyda'r siwgwr nes bod y cyfan yn dechrau caramelleiddio.
2. Irwch tun 20cm. Gosodwch y caws, tato, winwns, rosmari, halen a
phupur mewn powlen. Curwch yr wyau a'u rhoi yn y gymysgedd.
Rhowch y cyfan yn y tun a'u gwastodi. Coginiwch am tua 40 munud.

Tomatos â blas Groegaidd.

Cynhwysion

8 tomato mawr
Un winwnsyn wedi'i sleisio
Dau ewyn garlleg
Perlysiau wedi'u torri'n fân
Un llond llwy fwrdd o olewon
75gm o reis
200ml o stoc
50gm o gaws wedi'i gratio




Dull

1. Torrwch top y tomato. Crafwch y cnawd allan.
2. Cynheswch yr olew mewn padell a meddalwch y winwns a'r garlleg.
Ychwanegwch y perlysiau, tomato a'r olewon yna'r reis a'r stoc; yr
halen a phupur i'w flasu. Lled ferwch am 15 i 20 munud.
3. Trowch y ffwrn i 160°C. Rhowch y llenwad yn y tomatos. Sgeintiawch
â chaws a phobwch am 30 munud. Gadewch i oeri.

Tarten 'Llus'.

Cynhwysion

Un pecyn 375gm o does brau (Shortcrust).
100gm o gaws hufenog
500gm o lus
Croen un lemwn
Llond un llwy fwrdd o flawd plaen
Un melyn ŵy



Dull

1. Trowch y ffwrn i 220°C. Rhowch dun pobi yn y ffwrn i dwymo.
Rholiwch y toes i gylch o 30cm a'i roi ar bapur gwrthsaim.
2. Cymysgwch y caws gyda llond llwy fwrdd o siwgwr. Gwasgarwch
dros y toes gyda tua 9cm o fframwaith.
3. Cyfunwch y llus, zest, blawd a 3 llond llwy fwrdd o siwgwr.
Gwasgarwch dros y caws. Plygwch y toes yn ôl o'r ymyl i greu ochr
'fflan agored'. Yna sglein o ŵy drosto a sgeintiawch â siwgwr.
4. Gosodwch ar y tun pobi. Pobwch am 25 munud nes yn euraidd.
Gadewch ar y papur i'w gludo yn y fasedd.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Llanwnnen

Gwellhad Buan

Hyfryd yw gweld Alan Davies, Grannell Nursery o gwmpas unwaith yn rhagor yn dilyn ei lawdriniaeth yn gynharach yn y mis. Mae ei wraig Erika hefyd yn gwella'n arbennig yn dilyn ei arhosiad hithau yn yr ysbyty a braf yw gweld busnes lewyrchus iawn ganddi yn Grannell Nursery a phopeth yn edrych mor daclus a graenus yno.

Braf yw clywed fod Mic Thomas, Bro Cadarn yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Hefyd Tessni Gittins o Fro Cadarn sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig, 90 oed

Llongyfarchiadau i Mrs Magw Hughes, Pantdderwen ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Fehefin 16eg. Dymuniadau gorau oddi wrth Aeron ac Ann, Berwyn ac Elin, Caryl a Ben, a Gwenno, Tomi ac Elis. Mwynhewch yr achlysur.

Sefydliad Y Merched

Yn Mis Mai aethom am wybdaith i'r 'La Calabra' y Caffi Eidalaidd yn Ffostrasol. Cawsom arddangosfa gwneud 'Hufen Ia' yn gyntaf ac yna pryd blasus eidalaidd, hyfryd iawn. Trefnwyd y noson gan Mary Davies a Ceinwen Roach, a diolchwyd iddynt gan ein llywydd Avril Jones. Wedi swper cafwyd cyfarfod byr, lle trafodwyd y 'Llyfryn Newyddion' misol. Y gystadlaeath oedd 'Y Trinket Box' pertaf, a'r enillydd oedd Alice Davies, yn 2il-Doris Jones a 3ydd oedd Ceinwen Roach. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fehefin yr ail.

90 oed

Llongyfarchiadau ar Ben-blwydd arbennig Pen-blwydd hapus i Mrs Magw Hughes, Pantdderwen, Llanwnnen, a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar yr 16eg o Fehefin.

Dymuniadau gorau wrth holl drigolion y pentref, a diolch am eich cyfraniad arbennig i wahanol fudiadau dros nifer o flynyddoedd.

Ysgol Llanwnnen

Croeso cynnes i ddau ddisgybl newydd sydd wedi dechrau gyda ni ar ôl gwyliau'r Pasg sef, Sioned Davies a Rhodri Jones. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn yr ysgol.

Wedi Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth llwyddiannus bu'r Grŵp Dawnsio Gwerin lan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn y Bala yn ystod y Sulgwyn. Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant y deg disgybl sef Carwyn, Steffan Holmes a Steffan Griffiths, Meirion, Guto, Catrin, Lucy, Maria, Lilly ac Emily. Da iawn chi am gynrychioli'r Ysgol. Diolch yn fawr iawn hefyd i Mrs Elony Davies am ein cynorthwyo wrth gyfeilio ac i Mr Dafydd Dafis a fu'n helpu hyfforddi'r grŵp.

Bu nifer o ddisgyblion Dosbarth Mr Ebbsworth yn cystadlu yng



Yn Eisteddfod Gadeiriol Talgarreg Dydd Sadwrn Mai 3ydd, Nia Beca Jones, Llanwnnen oedd yn gyntaf ar yr unawd dan 10 oed a hefyd unawd ar unrhyw offeryn cerdd dan 12 oed.

nghystadleuaeth Traws Gwlad Cylch yr Urdd yn ddiweddar yn Llambod ac fe aeth pump disgybl ymlaen i'r rownd nesaf yn Aberaeron. Llongyfarchiadau i Meirion, Guto, Lilly a Beca am gystadlu yn arbennig o dda yn erbyn rhedwyr eraill o ranbarth Ceredigion a llongyfarchiadau mawr i Rhys Williams, blwyddyn 3, am lwyddo i ddod yn ail yn ei ras ef. Da iawn ti Rhys!

Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn derbyn gwersi beicio yn ddiweddar ac wedi bod yn mwynhau mas draw yn dysgu sut i fod yn ddiogel ar eu beiciau ar y prif-ffyrdd. Maent yn awr wrthi yn paratoi ar gyfer y prawf terfynol ganol y mis.

Bu disgyblion Dosbarth y Cyfnod Sylfaen ar drip i Gastell Newydd Emlyn yn ymwneud â'u thema ar Gymru. Cafwyd cyfle i weld y castell a gwrandao ar stori cyn mynd i gaffi i gael blasu bwyd a diod Cymreig. Roedd pawb wedi mwynhau ond wedi blino wrth ddychwelyd i'r ysgol. Diolch i Mrs. Mills am drefnu.

Hoffai'r Cyngor Ysgol a'r Staff ddiolch i'r holl rieni sydd wedi bod wrthi'n ddiweddar yn tacluso a pharatoi tir yr ysgol fel rhan o'n gwaith yn datblygu EcoYsgol. Diolch i bawb a fu'n palu, chwynu, strimio, torri porfa, llifo, gyrru 'diggers' a thractorau. Mae'r cae a'r adeilad yn llawer mwy taclus oherwydd eich gwaith caled.

Ymunodd nifer o rieni, disgyblion a ffrindiau'r ysgol ar daith gerdded nodedig ar noson hyfryd o wanwyn. Cerddwyd o amgylch Neuadd gan stopio am ddiod a chlonc. Casglwyd swm dda o arian ar gyfer y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolch i bawb am gefnogi.

Yn ystod y mis diwethaf mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn Pontio yn Ysgol Bro Pedr ar bedwar achlysur. Cafwyd cyfle i ddod i adnabod yr Ysgol a chyfarwyddo gyda phatrwm gwersi. Creuwyd daliwr pensiliau gan bob un disgybl ac roedd hi'n amlwg i bawb fwynhau.



Rhys Williams disgybl yn Ysgol Llanwnnen a ddaeth yn ail ac yn ennill y fedal arian i blant Blwyddyn 3 yn Rasys Trawsgwlad yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ddiweddar.



Heledd Jenkins a enillodd fedal efydd mewn cystadleuaeth gymnasteg yn Abertawe ar ddydd Sul y 4ydd o Fai. Roedd y cystadlu yn frwd, gyda chlybiau o Aberystwyth i Gaerdydd yn bresennol. Hoffai Heledd ddiolch i Mr Islwyn Rees a Leah Hargreaves am eu cefnogaeth bob amser.



Yn ystod cyfarfod Gwanwyn Sefydliad y Merched Ceredigion yn Felinfach, cyhoeddwyd y wobwr recriwtio ar gyfer 2013-14. Yn gyfartal oedd Llanwnnen, Penparcau a Taliesin. Yn y llun mae Brenda Wright, Cadeirydd y sir yn cyflwyno y cwpan i Carol Jane Denham, Cadeirydd SyM Llanwnnen.



I ddathlu achlysur 'Priodas Aur' Gwilym a Gwen, Llys Aeron ar y 25ain o Ebrill trefnodd ei merch Gwyneth a'r teulu benwythnos agored yn Llys-Aeron, cafwyd lluniaeth blasus gyda phob math o ddanteithion, ac yna 'sioe sleidiau' ar y teledu yn dangos gwahanol ddigwyddiadau dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Dymunant ddiolch o galon am y syrpreis, ac i gymdogion, perthnasau a ffrindiau a alwodd i mewn gyda dymuniadau da, yr anrhegion, blodau ac ati. Cawsant 95 o ymwelwyr a dros 130 o gardiau, hefyd am y galwadau ffôn. Cawsant benwythnos i'w gofio, llawer o sbri a chymdeithasu. Diolch i bawb.

Ysgol Feithrin Coedmor

Pob lwc i'r plant sydd wedi symud o'r Ysgol Feithrin i Ysgol Carreg Hirfaen y tymor hyn a chroeso mawr i blant sydd newydd ddechrau yn yr Ysgol Feithrin. Thema'r tymor nesaf fydd "Y môr".

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jones am basio Gradd 2 ar y piano gydag anrhydedd. Gwnaeth Elan yn arbennig gan gael marciau llawn yn y rhannau technegol yn ogystal â chael marciau llawn yn un o'r darnau.

Hefyd, llongyfarchiadau i Undeg Medi Jones, Brynsteffan ar basio Gradd 1 Piano gyda theilyngdod a gradd 1 Ffliwt gyda theilyngdod.

Da iawn i chwi eich dwy. Daliwch ati i ymarfer.

Sefydliad yr Aren Cymru

Fe drefnwyd taith gerdded dydd Sul diwedd Ebrill o Benrhyn Cwmann at ofal a brwydr barhaus i daclo afiechyddion arenol. Yr oedd yn bleserus i grwydro lawr i Barcyrhos ar ddiwrnod o wanwyn braf. Cwmni da o bob oedran yn dangos fod y gymuned yn gweithio dros eraill.

Y mae'r swm godwyd gan y gwirfoddolwyr yn awr yn £600 a £100 arall wrth y Cyngor yn Pencarreg. Diolch i bawb am eu haelioni.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Ormond Jenkins, Tandderwen ac Irene Price, Gelliwlol ar ôl eu harosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar ac i unrhyw un arall sydd wedi bod yn anhwylyd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Bethan Lewis a'r teulu, 18 Heol Hathren ar farwolaeth ei mam Mrs Llinos Jones, Stryd Newydd, Llambled.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Beca a Llion Russell, 11 Treherbert ar enedigaeth mab bach ac ŵyr cyntaf i Eleanor a Gareth a gor-wyr i Mrs Ceinwen Russell, Coedeiddig. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

1. Mrs Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 72. 2. Cai Luker, 5 Treherbert, Cwmann, 102. 3. Stephen Palmer, Gabler, Cae Ram, Cwmann, 124. 4. Mrs Audrey Bonner, Heol-y-Bont, Llambled, 6. 5. D. J. Evans, Blaenbidernin Isaf, Pencarreg, 135. 6. Mrs Eva Brown, Ty Helyg, Cae Ram, Cwmann, 37. 7. Mrs Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104. 8. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68. 9. Mrs Yvonne Davies, Cwm Brwyn, Pencader, 123.

Sefydliad y Merched

Ar y 6ed o Fai daeth y Gangen ynghyd ar y comin yn Llambled i fynd ar daith hel trysor oedd wedi ei threfnu gan Helena a Tegwen. Teithiwyd ar hyd y Stryd Fawr, i lawr stryd y coleg ac i fewn i gampws y coleg i chwilio am gliwiau. Wedi llawer o hwyl a chrafu pen aeth pawb yn ôl drwy Stryd y Bont i westy'r Castell lle cafwyd pryd o fwyd blasus. Daeth dau barti yn gyfartal gyntaf sef parti Avril a pharti Elma.

Diolchodd Gwen Jones, y Llywydd i Helena, Tegwen a Lynwen a'r teulu am eu gwaith yn trefnu a beirniadu. Yn dilyn y bwyta cafwyd cyfarfod byr. Estynodd Gwen groeso yn ôl i Marian Roberts ar ol ei llawdriniaeth. Hefyd llongyfarchodd Elma ar gyrraedd penblwydd arbennig.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafodd tîm pêl-droed merched a bechgyn Carreg Hirfaen ddiwrnod arbennig ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth yn ddiweddar gan gyrraedd y rownd gyn derfynol. Da iawn chi. Cyn gwyliau'r Pasg bu plant blynyddoedd 3 a 4 yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog am dridiau. Cafodd y plant amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys sgio, gwibgartio, marchogaeth ceffylau, dringo'r wal ddringo, rhaffau hir, nofio a saethyddiaeth. Roedd y bwyd yn flasus iawn ac roedd yn braf cael rhannu ystafell wely gyda'n ffrindiau.

Cynhaliwyd ffestifal aml sgiliau yn ysgol Bro Pedr lle bu dosbarth B1 3 a 4 yn cael hwyl wrth ymarfer a datblygu sgiliau chwaraeon.

Fe gafodd CA2 ymweliad gan yr heddlu yn ein ysgol yn ddiweddar. Trwy lwc nid oeddent am arestio neb! Buont yn hysbysu ni i fod yn "SMART" wrth ddefnyddio'r wê.

Ar nos Iau 10fed o Ebrill fe fu plant yr ysgol yn diddanu yng nghynerdd Pigion Pasg Pantydfedwen yn neuadd Bro Pedr, lle perfformiwyd yr ymgom a chôr buddugol yr Urdd.

Cynhaliwyd Traws-gwlad Cylch Llambled ar Ebrill 11eg. Enillodd yr ysgol bedair o'r wyth ras, felly llongyfarchiadau mawr iddynt.

Dyma'r canlyniadau. Bechgyn blwyddyn 3, Osian Elis-1af, Alex Lewis-7fed, Sion Harhy 11eg, Iestyn Wynne 15fed. Merched Blwyddyn 3, Gwenllian Llwyd -2ail, Jessica Jones -3ydd, Niomi Carroll -7fed, Elen Jones -9fed. Bechgyn Blwyddyn 4, Sion Aled-3ydd, Iestyn Plant- 4ydd. Merched Blwyddyn 4, Seren James-1af, Merched blwyddyn 5, Lowri Fflur-8fed, Undeg Jones-12eg, Gwennan Rowcliffe-14eg. Bechgyn blwyddyn 6, Daniel Ifan-1af, Llywelyn James -2ail, Merched Blwyddyn 6, Beca Mai-1af, Lowri Aur-3ydd.



Cerddwyr wedi ymgynnull ger Ysgol Carreg Hirfaen er mwyn codi arian i Sefydliad Aren Cymru. Taith a drefnwyd gan Phillip Lodwick.



Plant meithrin Coedmor yn dangos y beiciau a brynwyd ar eu cyfer.

Pob lwc i bawb a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli cylch Llambled yn y sir ddechrau mis Mai.

Cafodd yr ysgol lwyddiant arbennig yng nghystadleuaeth Traws-gwlad Dyfed yn ystod y mis. Daeth Beca Mai Roberts yn 2ail yn ras i ferched flwyddyn 6, Daniel Ifan yn 5ed yn ras i fechgyn blwyddyn 6, Seren James yn 5ed a Mali yn 6ed yn ras i ferched blwyddyn blwyddyn 4. Llongyfarchiadau iddyn nhw ac i bawb arall a redodd.

Cyn y gwyliau, bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 am dridiau i wersyll Manor Adventure. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau tra yno gan gynnwys dringo, adeiladu rafft a chanwio ar y llyn. Mwynhaodd y plant mas draw ond roedd pawb yn flinedig iawn ar ol cyrraedd adref yn dilyn yr holl 'midnight feasts'!!



Sara Elan Jones yn ennill cyntaf ar Lefaru i flynyddoedd 5 a 6 yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid ac ail ar yr Alaw Werin a chydodd trydydd ar yr unawd.



Brenhines, Llywydd, morwynion a gweision Carnifal Cwmann.



Pencampwraig Carnifal Cwmann
Casi Gregson fel cymeriad allan o
"Frozen".



Yn gyntaf i oedran B1 3&4 oedd
Gwenllian Llwyd yn mynd i'r Bala
mewn Cwch Banana.



Y pâr gorau yng Ngharnifal
Cwmann oedd Tudur Llwyd a
Ronnie Evans.



Cymeriad gorau Cylch Meithrin ac
iau yng Ngharnifal Cwmann - Ifan
Llywelyn gyda'i fam Sian.

Carnifal Cwmann

Ar Ddydd Sadwrn, 24ain o Fai cynhaliwyd Carnifal a Mabolgampau Cwmann ar gae'r pentref, sef un o'r prif ddigwyddiadau yng nghalendr y pentref. Braf oedd clywed un o gyn drigolion y pentref a oedd yn bresennol ar y dydd yn canmol ymdrech y pwyllgor a'r gymuned o fedru cynnal digwyddiad sydd mor bwysig yn ein cymunedau cefn gwlad, rhywbeth nad sy'n bodoli yn y trefi mawr ac efallai ei fod yn cymeryd rhywun sydd wedi symud allan o gymuned glos i werthfawrogi pwysigrwydd gweithgaredd tebyg.

Ein llywydd eleni oedd Mrs Teleri Gwyther, Hendai gynt a chawsom araith bwrpasol iawn ganddi a rhodd hael tuag at goffrau'r pentref. Teithiodd yr osgordd drwy'r pentref cyn cael eu croesawi'n gynnes ar y cae gan dyrfa dda er gwaetha'r tywydd garw. Ein brenhines eleni oedd Bethan Williams a wnaeth ei gwaith gyda graen trwy gydol y dydd ac roedd yn ofalgar iawn o'u gosgordd sef Sophie Jones a Lowri Rowcliffe y morynion, Lois Alaw Thomas, Brenhines y Rhosod ac Ifan Jones a Joshua Morris y macwyaid. Roedd pob un ohonynt yn edrych yn brydferth iawn.

Gwelwyd nifer o wisgoedd lliwgar, amserol a diddorol yn y carnifal a gwaith Llinos ac Emyr Jones, Araul a Rhian a Jeff Evans, Llys y Coed oedd beirniadu'r enillwyr. Diolch yn fawr iddynt am eu presenoldeb a'u caredigrwydd at y plant bach wrth roi pecyn o losin i bob cystadleuydd. Dyma'r canlyniadau: Cymeriad gorau Cylch meithrin ac iau 1af: Ifan Llywelyn, 2il: Cai Wyn ac Elin Dafydd, 3ydd: Llewelyn Williams; Derbyn 1af: Tudur Llwyd, 2il: Megan Dafydd, 3ydd: Ellie Gregson a Rhun Davies; B1 1&2 1af: Casi Gregson, 2il: Marged Jones, 3ydd: Rhys Harrhy; B1 3&4 1af: Gwenllian Llwyd, 2il: Sion Harrhy, 3ydd: Elen Jones. Y Par gorau 1af: Ronnie Evans a Tudur Llwyd, 2il: Casi Gregson a Lilly May, 3ydd: Trystan a Llewelyn Williams. Pencampwraig y Carnifal oedd Casi Gregson fel cymeriad allan o "Frozen". Yn adran yr oedolion braf oedd gweld Rhiannon Lewis wedi mentro arni gyda'i hiwmor a chipio'r wobwr gyntaf fel "The only singer in the village" gan fod aelodau Côr Cwmann ar eu taith yn Llandudno i ddathlu pen-blwydd y côr. Llongyfarchiadau i bob un a wnaeth gymeryd rhan.

Yn anffodus oherwydd y tywydd garw, ni chynhaliwyd y mabolgampau eleni, ond aethpwyd ymlaen gyda'r ras 800m i blant cynradd; 1500m i blant uwchradd a'r ras 5milltir. Diolch i bawb a redodd, ac i'r rhai a fu'n helpu i gynorthwyo gyda threfniadau'r ras ar y dydd.

Diolch i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y dydd, roedd gan bawb eu rôl i chwarae er mwyn sicrhau llwyddiant. Diolch yn arbennig i noddwyr y dydd am eu cefnogaeth a'u haelioni sef Cyngor Cymuned Bro Pencarreg, Graham Tyres, Douglas Bros a J. H. Williams a'i feibion. Diolch yn fawr hefyd i W. D. Lewis a'i fab, Briwsion a Simon Hall Meats am eu cefnogaeth a'u cydweithio cyson.

Gorsedd y Beirdd

Ymhyfrydwn o glywed y newyddion y bydd cyn aelodau CFfI Cwmann yn cael eu hurddo i'r wisg las yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr eleni. Llongyfarchiadau i Eirios Thomas, Coedeiddig gynt sy'n drefnydd CFfI Sir Gâr a Tegwen Morris, Alltgoch gynt sy'n gyfarwyddwr Merched y Wawr.



Cronfa Ymddiriedolaeth Budd Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis

Mae'r Gronfa wedi sefydlu ers bron i 4 blynedd ac mae dros £275 mil o bunnoedd y gronfa wedi ei ddyfarnu gyda 26 o glybiau, cymdeithasau a sefydliadau yn ardal etholaeth Llanfihangel ar Arth wedi elwa.

Yn ystod yr amser yma mae'r pwyllgor gweithgar a chydwybodol lleol wedi bod yn cwrdd 4 waith y flwyddyn i ystyried ceisiadau o'r gymuned. Yr ydym yn awyddus i wahodd unigolyn sydd yn byw o fewn ffiniau ardal yr etholaeth i ymuno gyda'r Pwyllgor. Os ydych am gael eich hystyried ar gyfer aelodaeth o Bwyllgor y Gronfa yna ysgrifennwch lythyr at Meinir Evans Brynceirch, Llanllwni, Pencader Sir Gar SA39 9JP erbyn y 24ain o Fehefin. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Cronfa Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis ar yr 8ed o Orffennaf am 7.30 yng Nghanolfan Cymunedol Alltwalis; bydd yna groeso cynnes i bawb.

Os ydych am geisio am gefnogaeth y Gronfa i glwb, sefydliad neu gymdeithas o fewn ffiniau'r etholaeth mae croeso i chi gysylltu gyda'r Gweinydddydd Meinir Evans am becyn ymgeisio ar y rhif ffôn 01559 395 699 neu thrwy e bost meinir.evans@btinternet.com.

Gŵyl Hwyl Amgueddfa Wlân Cymru yn Ehangu

Am y trydydd blwyddyn yn olynol bydd Gŵyl Hwyl yn cael ei chynnal yn Amgueddfa Wlân Cymru ar Ddydd Sadwrn 28 Mehefin 2014 gyda'r gweithgareddau i gyd am ddim.

Bydd y diwrnod yn dechrau am 10yb tan 3yp a'r gweithgareddau newydd yn cynnwys sesiynau beicio i blant bach, dawnsio bola, sgiliau beicio mynydd, creu blychau adar, sesiynau cynnal a gofalu am feiciau mynydd a modeli balwns. Ynghyd â hyn bydd y gweithgareddau arferol yn cynnwys paentio wynebaw, gweithgareddau crefft, sesiynau stori a gemau parasiwt.

Yn ôl Joanna Thomas, Swyddog Addysg Amgueddfa Wlân Cymru mae'r Amgueddfa "wrth ein bodd o allu datblygu ar lwyddiant ein Gŵyl Hwyl ac mae hyn yn ddiolch i ddatblygu partneriaethau pellach gyda Actif Sir Gâr a Phartneriaeth Sir Gâr trwy brosiect Teuluoedd yn Gyntaf. Eleni eto byddwn yn cydweithio hefyd, fel arfer, gyda Menter Gorrlewin Sir Gâr a Twf."

Geiriadur Prifysgol Cymru – Digwyddiad Cyffrous!

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru wrthi'n cofnodi hanes a datblygiad geirfa'r iaith Gymraeg ers 1921 pryd sefydlwyd cynllun darllen. Cyhoeddwyd y Geiriadur mewn cyfrolau rhwng 1950 a 2002, ac ers hynny mae'r gwaith golygu yn parhau, gan ychwanegu er enghraifft geiriau megis 'cyfrifiadur' a 'cymuned' sy'n rhan mor bwysig o'n hiaith heddiw.

Mae 2014 yn flwyddyn bwysig a chyffrous yn hanes y Geiriadur, gan ein bod yn lansio fersiwn ar lein. Dydd Iau, 26 Mehefin, bydd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn gwasgu'r botwm fydd yn rhoi'r adnodd gwerthfawr hwn yn fyw ar lein. Defnyddiwch e – cofiwch, eich geiriadur chi ydyw!

Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan www.cymru.ac.uk/geiriadur, cyfrif Facebook - Geiriadur Prifysgol Cymru, a dilynwch ni ar Twitter (@geiriadur) i gael 'gair y dydd'!

Gwirfoddoli Gwyllt dros Gymru!

Roedd dros 230 o ymgeiswyr wedi ceisio am dalebau fel rhan o'r ymgyrch hon gan Cadwch Gymru'n Daclus.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a gefnogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, nod yr ymgyrch oedd i annog pobl i wella ffynonellau bwyd a chynefinoedd ar gyfer peillio yng Nghymru.

Roedd gwirfoddolwyr o Gymdeithas Gwenynwyr Llambod a'r Cylch wedi torchi eu llewys a chysylltu trwy rhoi help llaw i'n gwenyn a'n ier bach yr haf yn eu gwenynfa ar bwys Talsarn. Roedd y grŵp yn llwyddiannus wrth wneud cais am £150 taleb Canolfan Gerddi Cenedlaethol y maent wedi eu defnyddio i brynu coed ffrwythau, planhigion gwrychoedd, compost a hadau blodau gwyllt.

Yn ystod Penwythnos Gwyllt, cliriodd y Gymdeithas yr ardal o gwmpas y gwenynfa a chafodd y coed ffrwythau eu plannu. Defnyddion nhw y planhigion newydd i lenwi llefydd mawr yn y gwrych i helpu gadw y cychod gwenyn yn ddiogel. Mae helpwyr iau wedi hau hadau blodau gwyllt. Diolch i bawb, mae'r Wenynfa yn barod am y tymor cadw gwenyn newydd.

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at wild@keepwalestody.org neu south@keepwalestidy.org

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Llogi Peiriannau G + C Plant Hire

Gwilym Evans
25 Heol-y-Dderi
Llanybydder
07971041676

Cysylltwch â ni am unrhyw
fath o waith ceibo a mân
waith sifil



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Llanfair

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag Eleanor Evans, Nantymedd a'i brawd Billy Jones Nouadd ar golli eu brawd Evan Edwin Jones. Magwyd y tri ohonynt yn Sunny Hill, Tregaron. Roedd Evan yn byw yn 'Hundred House', Llanfair-ym-Muallt ers blynyddoedd lawer.

Cinio Pwyllgor y Gymuned

Ar nos Sadwrn Mai 10fed daeth deunaw o bwyllgor Cellan a Llanfair a'i ffrindiau ynghyd i fwyta a chymdeithasu yn y Castle Green. Cafwyd bwyd arbennig o flasus wedi ei baratoi gan Brian. Mae y noson bleserus hon yn cael ei chynnal mewn gwesty gwahanol yn flynyddol. Diolch i Brian am baratoi bwyd mor flasus ac i Mavis am ein diddori gyda ei storïau digri.

Ffion Ffantastig o Lanfair.

Mae Ffion Quan, Sŵn yr Afon, wedi cael canlyniadau arbennig yn yr wythnosau diwethaf. Mae wedi bod yn rhedeg Trawsgwlad McCams yn Antrim, Iwerddon gan orffen yn 25ain, Caerdydd ar ôl hynny gan orffen yn 10 fed, yna Parc Dinefwr, Llandeilo i Rasys Trawsgwlad Cymru gan orffen yn 5 ed yn y dosbarth 17/20 a hithau ond yn bymtheg oed. Wedyn Bolton gan orffen yn 26ain ond y bedwaredd merch o dîm Cymru i groesi'r llinell. Camp rhagorol! Cymerodd ran yn Mini Marathon Llundain ar Mawrth 13eg gan orffen mewn amser o 19 munud. Bu Ffion a'i mam Eleri yn rhedeg Ras y Parc yn Aberystwyth -Ffion yn gorffen mewn 20 munud ac Eleri mewn 30 munud.

Cymerodd ran hefyd yn ddiweddar yn Ras Trawsgwlad Sialens y Barcud Coch y Mhontarfynach a chroesodd y llinell derfyn yn gyntaf yn ei dosbarth. Yn ganlyniad o hynny mae wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth y Byd yn yr Eidal mis nesaf. Llongyfarchiadau cynnes iawn i ti a phob lwc yn yr Eidal. Un Ras Trawsgwlad sydd ar ôl y tymor yma a hynny ym Mwllch Nant yr Arian a rhedeg ar drac y bydd Ffion yn gwneud. Pob lwc i ti yno hefyd.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Rhifyn mis Gorffennaf

Yn y Siopau
Gorffennaf 3ydd

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Mehefin 23ain

MIS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Mae'n werth troi'n fisitor ambell dro ...

Clywed cais ar y radio wnes i. Digon posib mai ar raglen Dai Jones Llanilar, a finnau wedi sylwi am fod y cais i rywun dan 85 oed.

Ond y peth pwysig oedd fod y cais yn dod gan bobol oedd yn dod i Lanbed bob blwyddyn i dreulio'u gwyliau. Wrth eu bodd yma, medden nhw.

Ddylwn i ddim bod wedi synnu, falle, ond rhyw ddechrau meddwl wnes i, yn sinigaidd braidd, tybed beth oedden nhw'n ei wneud yn yr ardal.

Ro'n i'n gweld y byddai yna lot o hwyl i'w gael o ddod i weld faint o wahanol ddulliau sydd gan gontractwyr y cyngor a'r gwasanaethau o wneud twll yn Stryd Fawr neu Stryd y Bont.

Os ydech chi'n licio ffair, mae gwyllo ceir yn parcio ar Stryd y Coleg ac wedyn lorïau a bysus yn trio mynd heibio i'w gilydd yn ddigon tebyg i dodgams ac mae'n amlwg fod y myfyrwyr sy'n gwisgo fel milwyr o'r Canol Oesoedd yn cael hwyl yn gwneud rhywbeth.

O'n i'n meddwl wedyn y byddai modd cael Marina ar lyn Falcondale - neu ar waelod maes parcio'r Cop ar ôl iddi fwrw.

Ar funud wirioneddol wan, mi ddychmygais i y gallen ni drefnu triapiau bws draw i Llanybydder a thwylo pobol eu bod nhw wedi landio yn Bucharest. A fyddai hi ddim yn anodd o gwbl i berwsadio ymwelwyr eu bod nhw mewn rhan o Loegr.

Ond, yn y diwedd, penderfynu edrych ar yr ardal o'r newydd wnes i a sylweddoli, jiawch, pam lai, mi allech chi dreulio gwyliau yma, canolbwynt Riviera Afon Teifi.

Petaen ni'n gallu trefnu bod banc yr HSBC yn cael adeilad newydd a gwneud ambell i newid arall yma ac acw, mi fyddai gynnon ni brif strydoedd sydd heb newid llawer o gwbl ers ymhell dros ganrif ac mae'n rhyfeddod modern hefyd am mai dim ond un neu ddwy o siopau cadwyn sydd yno.

Mae yna ddigonedd o lefydd bwyta yn ystod y dydd, a'r rheiny'n amrywio o'r traddodiadol Gymreig i dwtsh bach o'r Eidal a Bengal. Mae'n wir fod angen ychydig rhagor o lefydd min nos ond, unwaith y deuai'r ymwelwyr, mi fyddai rhywun yn siŵr o fentro.

I bobol o'r tu allan, mae'r ardal yn hardd. Maen nhw'n sylwi ar y coed a'r golygfeydd wrth yrru uwchben y dyffryn am Lanwnnen neu Bencarreg ac mae'r ffyrdd bach cul tua Llanfair a Chellan yn dlws iawn i lygaid diarth.

O fewn milltir neu ddwy, mae yna lefydd ardderchog i gerdded, bryniau y gallwch chi gerdded am filltiroedd hyd-ddyn nhw heb weld bron yr un enaid byw a dim ond ambell i felin wynt yma ac acw i ychwanegu at y diddordeb.

Ac, wrth gwrs, mae'r afon ei hun, yn ei holl amrywiaeth a'r planhigion a'r bywyd gwyllt sydd hyd-ddi. Dyfrgwn o dan eich traed, barcutiaid uwchben ... dyden ni brin yn sylwi, ond mi fyddai pobol y trefi wrth eu bodd.

Yr adnodd arall sydd gynnon ni, wrth gwrs, ydi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant - jyst abowt. Er gwaetha'r llif anferth o bobol o'r tu allan, mae yna gryfder o hyd a fyddai'n apelio'n fawr at bobol sy'n dysgu'r iaith.

Mae ffigurau'r Cyfrifiad hyd yn oed yn cadarnhau hyn - os tynnwch chi'r myfyrwyr oedd yn digwydd bod yn yr ardal ddydd y cofnodi, mae tipyn mwy na hanner pobol yr ardal yn siarad yr iaith. Yn fwy nag ystadegau, mae yna fywiogrwydd o hyd.

Petaech chi'n tynnu holl dalentau'r Ffermwyr Ifanc a'r Urdd at ei gilydd yn yr ardal, mi allech chi greu sioe gwerth chweil yn rhywle fel Llanerchaeron - rhoi blas go iawn o fywyd y cylch i bobol sy'n gwirioni ar lawer llai ar raglen fel Britain's Got Talent.

Y wers ydi y dylen ni i gyd bob hyn a hyn gymryd gwyliau yn ein hardal ein hunain, er mwyn ei gweld o'r newydd.

Hoffech chi roi mwy o sylw i'ch clwb? Ydych chi'n ohebydd y wasg i'ch cymdeithas?

Diddordeb mewn newyddion lleol? Am ddysgu sut i ddefnyddio facebook a twitter?

Mae **Papur Bro Clonc** a **Gwasanaeth Newyddion Golwg360** yn cynnal hyfforddiant ar gyfryngau cymdeithasol i unigolion a chymdeithasau lleol er mwyn cyflwyno newyddion digidol lleol iawn.

Dyddiad newydd - Dydd Mawrth 24ain Mehefin Hedyn Mwstard, Stryd y Coleg, Llanbed

3 - 5 yp Gweithdy Cyfryngau Cymdeithasol neu gynhyrchu deunyddiau sain a fideo ar gyfer y we. 6 - 8.30 yh Creu a dosbarthu newyddion lleol iawn yn ddigidol ar Twitter, Facebook, YouTube ayb

~ Cysylltwch â cadeirydd@clonc.co.uk am fwy o wybodaeth. ~

Cornel yr Urdd



Eisteddfod yr Urdd


Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala yn ddiweddar daeth llwyddiant i'r aelodau canlynol o ardal Papur Bro Clonc: Ceginio Bl. 4 – 6 3ydd Hanna Davies, Ysgol Cwrtnewydd; Grŵp Llefaru Bl 7, 8 a 9 (D) 2il Ysgol Bro Pedr; Parti Bl 6 ac iau (Adran) 3ydd Adran Llambled; Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 7, 8 a 9 2il Charlotte Saunders, Ysgol Bro Pedr; Grŵp Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 10 a dan 19 oed 3ydd Ysgol Bro Pedr; Tîm Siarad Cyhoeddus (Y.U.) Bl 10 a dan 19 oed 1af Ysgol Bro Pedr.



Llwyddiant dau frawd o Aelwyd Llambled - Meirion Sion Thomas yn ennill yr ail ac yn derbyn y fedal arian am Farddoniaeth i Flynyddoedd 10 a 12 a Llion Rhys Thomas yn drydydd am Gerdd Rydd dan 19oed yng ngwaith cartref Eisteddfod Cenedlaethol yr Urdd, Meirionydd.



Hannah Davies, Ysgol Cwrtnewydd a ddaeth yn drydydd, ymhlith y cystadleuwyr Cogurdd eraill yn Eisteddfod yr Urdd.



Yn Adran Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd - Dewi Uridge, Ysgol Bro Pedr yn gyntaf am gasgliad o waith 18 - 25 oed.



Cadair Steffan Roberts, Ysgol Bro Pedr yn Eisteddfod yr Urdd - yn gyntaf yng nghystadlaeth Dylunio a Thechnoleg dan 19 oed.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Baton Gemau'r Gymanwlad

Gwion Payne, Ysgol y Dderi yn cario'r baton ymhlith athletwyr lleol eraill yn Aberaeron yn ddiweddar.



Bu Ruth Davies, Ysgol Bro Pedr (chwith) yn cario'r baton hefyd.



Anwen Butten, Cellan a fu'n cario'r baton fel rhan o'r daith gyfnewid yng Nghaerfyrddin.



Sulwen Richards, Ysgol Bro Pedr a fu'n cario'r Baton yn Eisteddfod yr Urdd yn y Bala.

Gohebiaeth



Penwythnos Cynganeddu

gyda'r prifeirdd Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones

Oes gennych chi ddiddordeb mewn dysgu sut i gynganeddu? Neu oes gennych chi brofiad ac eisiau rhywle i ymarfer a meistrolï'r grefft? Beth bynnag yw eich gallu i gynganeddu, bydd y penwythnos yma yn hwb ac yn fwynhad i chi, ac am £50 yn unig am y penwythnos, pwy all ddweud na?

Bydd yn cael ei gynnal ar gampws Caerfyrddin o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gan ddechrau am 11 ar fore Sadwrn y 5ed o Orffennaf a gorffen am 2 brynhawn Sul y 6ed.

£50 yn unig yw'r gost am yr holl diwtora (nid yw'n cynnwys bwyd/llety) ac mae'r elw i gyd yn mynd at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014.

Lle i 25 yn unig sydd, felly cyntaf i'r felin... Os hoffwch fwy o wybodaeth cysylltwch â Bethan Wyn Davies ar 01267 676618 neu b.davies@ydds.pcydds.ac.uk. Neu i archebu lle cysylltwch â Bethan a danfonwch sicw daladwy i 'PCYDDS' at: Bethan Wyn Davies, Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Campws Caerfyrddin, Caerfyrddin, SA31 3EP, gyda'ch enw a'ch manylion cyswllt.

Cyfeillion OPRA Cymru

Mae cwmni OPRA Cymru yn bum mlwydd oed ac eisioes wedi creu pedair oprar, sydd wedi cael canmolïaeth. Yng ngoleuni hyn mae'r cwmni'n credu ei fod yn bryd sefydlu 'Cyfeillion OPRA Cymru'.

Y syniad ydy y bydd y Cyfeillion yn gallu cynorthwyo i feithrin diddordeb yn OPRA Cymru ac yn llysgenhadon dros yr achos. Bydd y Cyfeillion yn derbyn gwybodaeth am OPRA Cymru, cael gwahoddiad i ddigwyddiadau arbennig, mynd ar deithiau a chael y cyfle i gymdeithasu gyda phobol â'r un diddordebau.

Sioned a Patrick Young, 07800 907404, oprar.cymru@yahoo.com



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!



Machodwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

■ 01570 422206 ■ 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llanbedr Pont Steffan

Grŵp Trafod Amaethyddol

Cafwyd diwrnod arbennig ar
Mai 7fed pan fu trip Grŵp Trafod
Amaethyddol Llanbedr yn ymweld
â ffermydd yn ardal Y Trallwng a
Bishop's Castle.

Ar ôl brecwast yn Llety Parc
Aberystwyth aeth y bws yn ei flaen
am Fferm Winnington Green ger Y
Trallwng. Cafwyd croeso cynnes
gan David, Rachel a James Lee
i'w fferm odro. Ei nod yw rhedeg
busnes cynladwy a phroffidiol
mewn modd mor effeithiol a
diffwdan â phosib. Maent wedi
cynyddu'r fuches i 360 o wartheg
eleni gyda system Seland Newydd ac
yn lloia yn y Gwanwyn. Mae yna tua
180 o wartheg i ddod fewn i'r fuches
odro ar y fferm hefyd. Roedd y
gwartheg yn cael eu godro mewn
parlwr rotari. Yn anffodus ar hyn o
bryd roeddent o dan warchau y TB
ac felly roedd gwaith ychwanegol i
fagu'r holl loi.

Roedd yn holl bwysig iddynt
wneud y gorau allan o'r borfa ac
roedd yn bleser i weld y gwartheg
yn pori'n hamddenol yn y caeau.
Mr David Lee yw Llywydd y
Gymdeithas Tir Glas am 2014-2015
ac mae nifer o ymweliadau â'r fferm
yn sgil y swydd. Mae'n obeithiol
iawn y bydd y diwydiant llaeth yn un
llewyrchus i'r dyfodol.

Rhodddwyd diolch iddynt cyn
ymadael gan y Cadeirydd, Rhodri
Evans a chyflwynwyd hamper i Mrs
Lee.

Ar ôl cinio yn Coed y Dinas
aethom ymlaen am ffermydd Walcot
a Patridge ger Bishop's Castle - sy'n
cael eu ffermio gan Mr James Evans,
ei Dad a'i Frawd. Roedd James yng
ngofal y da byw ar y ffermydd tra
bod ei frawd yn canolbwyntio ar y
tir â'r. Buches o wartheg Stabilizer
sydd gan James sy'n addas iawn i'w
ffordd o ffermio. Roedd James
wedi gwneud llawer o ymchwil cyn
penderfynu ar y brid Stabilizers
ac mae'n elwa'n fawr o'i cadw.
Cafodd nifer eu synnu pa mor dawel
oedd yr holl wartheg. Treuliwyd
amser yn ymweld â'r gwartheg
oll yn y siediau ac ar hyd y caeau.
Roedd diadell o ddefaid Lleyd croes
ganddynt hefyd. Roedd James ar
flaen y gad yn ceisio ffermio mewn
ffordd ymarferol gan ddefnyddio cyn
lleied o lafur â phosib a chynhyrchu
gwartheg magu a chig o'r ansawdd
gorau. Roedd y croeso gafwyd yn
gynnes iawn.

Diolchwyd iddo gan Rhodri,
oedd yn ffrind Coleg i James, a
chyflwynwyd hamper iddo.

Cafwyd pryd o fwyd blasus ar y
daith adre'n Llety Parc a diolch i
bawb yn enwedig Aneurin (AI) am
drefnu trip mor addysgiadaol a braf
cael cwmni diddan a digon o sbri.

Os oes gan unrhyw un ddidordeb
bydd trip ychwanegol yn mynd i'r
'NSA Sheep Event' yn Malvern ar

30 Gorffennaf 2014. Cysylltwch ag
Aneurin.

Bydd Trip yr Hydref yn mynd i'r
Alban ddechrau mis Medi i ardal
Kilmarnock. Cysylltwch ag Aneurin
neu Margaret os ydych am le ar y trip.

Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu
Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr
Pont Steffan yn Salem Caio ar Sul
18 Mai a'r haul yn gwenu'n braf.
Am y tro cyntaf erioed penderfyniad
y pwyllgor eleni oedd cynnal un
oedfa gyda'r plant a'r oedolion yn
canu bob yn ail a bu'r prynhawn yn
un llwyddiannus iawn. Llywyddwyd
mewn ffordd hwyliog a chartrefol
gan Mr Alwyn Roberts o Noddfa a
chwymerwyd at y rhannau arweiniol
gan Rhian ac Elin o Salem.

Yr arweinydd gwadd oedd Mrs.
Ceinwen Evans ac fe'i croesawyd
yn gynnes gan ein Llywydd a
chyfeiriodd ati fel person gweithgar
iawn yn ei chymuned.

Yr un oedd y croeso i Mr Elfyn
Davies ein organydd.

Mwynhawyd gwledd yng
nghwmni'r plant a phob un
ohonynt yn ymateb yn rhagorol
i gyfarwyddiadau'r arweinydd.
Pleser mawr oedd gwrandao ar nifer
o'r plant yn canu yn unigol ac
yn amlygu eu doniau disglair fel
cantorion ifanc. Bu'r plant hefyd yn
darllen yr emynau gan wneud hynny
yn ddeallus er bod nifer ohonynt yn
ifanc iawn. Cyflwynodd Mrs Alwena
Evans o Noddfa anerchiad diddorol
iawn i'r plant a hwythau yn ateb ei
chwestiynau gyda brwdfrydedd a
hiwmor. Llwyddodd yr arweinydd
i gael ymateb gwyb oddi wrth yr
oedolion hefyd ac er nad oedd rhif
y dynion yn uchel roedd canu'r côr
yn orfoleddus. Mae gan Ceinwen
y ddawn o dynnu'r gorau allan o'r
cantorion a hynny mewn dull mor
ddi-ffws.

Ar ddiwedd y Gymanfa diolchodd
y Llywydd i'r arweinydd am ei
gwasanaeth clodwiw, i Elfyn Davies
am ei gyfraniad gwerthfawr wrth yr
organ, i Emlyn Davies am arwain
rihysal yr oedolion, i bawb oedd
wedi cymryd rhan, i gantorion o
eglwysi eraill am eu cefnogaeth ac
yn olaf ond nid y lleiaf i swyddogion
ac aelodau Salem am y croeso
a'r te ardderchog. Diolchodd
Mrs Ceinwen Evans am y fraint o
gael arwain y Gymanfa a thalodd
deyrnged uchel i'r plant ac i'r
oedolion am eu canu bendigedig.
Datganodd ei gwerthfawrogiad
hefyd i Janet am baratoi'r plant ac
am ei gwaith arbennig yn Ysgol Sul
Noddfa a'i threfniadau trylwyr fel
Ysgrifennydd y Gymanfa.

Traddodwyd y fendith gan y
Parchedig Jill Tomos. Cytunai
pawb ein bod wedi cael prynhawn
bendithiol a phleserus iawn yn canu

mawl i Dduw ac yn cymdeithasu o
amgylch y byrddau.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â
phawb sydd wedi colli anwyliad ym
ystod y mis.

Noddfa

Daeth llwyddiant eto i ran Beryl
Davies un o aelodau Noddfa a'r
tro hwn yn Eisteddfod Talgarreg a
gynhaliwyd yn ddiweddar. Cipiodd
y wobr gyntaf sef Cadair fechan
hardd a rhodd ariannol o ddeg
punt ar hugain allan o unarddeg o
gystadleuwyr am ysgrifennu emyn
ar y testun Priodas gan dderbyn
canmoliaeth uchel iawn. Oherwydd
anabledd methodd Beryl fynychu'r
Eisteddfod ac fe dderbyniwyd y
Gadair ar ei rhan gan Janet Evans.
Mae Beryl yn ddiolchgar iawn
i Janet am ei chymwynas fawr.
Estynnir llongyfarchiadau calonnog
i Beryl a dymunir yn dda iddi i'r
dyfodol.

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis clywyd am
farwolaeth Mrs Llinos Jones,
Maenor, Stryd Newydd.
Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r
plant Bethan, Gareth ac Elgan a'u
teuluoedd i gyd yn eu galar o golli
mam, mamgu a hen famgu annwyl
iawn. Hefyd gyda Gerwyn a Mary
Jones Landre ar golli chwaer yng
nghyfraith yn yr un brofedigaeth.

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd y rhaglen Dechrau Canu yn
cael ei recordio yn Eglwys Shiloh
Llambled ar y nos wener Gorffennaf
11 am 7 o'r gloch. Croeso cynnes
i bawb. Mwy o fanylion yn nes at y
dyddiad.

Diolch

Dymuna Rosemary Davies,
Brynteg, Heol-y-Wig, ddiolch yn
fawr iawn i'w theulu am y gofal a
gafodd ar ôl ei llaw driniaeth i gael
penglin newydd. Diolch yn fawr
hefyd i bawb sydd wedi galw i'w
gweld, am y cardiau, anrhegion a
galwadau ffôn. Gwerthfawroga pob
caredigrwydd yn fawr iawn.

Merched y Wawr

Croesawodd Morwen bawb i
gyfarfod blynyddol y gangen a
rhannodd y newyddion trist am
farwolaeth Llinos Jones, un o gyn
aelodau ffyddlon y Gangen. Aeth
ymlaen i longyfarch Tegwen Morris
yn dilyn y newyddion y bydd yn
cael ei hurddo i'r Orsedd. Edrychwn
ymlaen at ei gweld yn ei gwisg
arbennig. Llongyfarchodd Dilys
Godfrey hefyd am ddod yn 3ydd yng
yn gystadleuaeth celf a chreffft Gŵyl
Fai Merched y Wawr yn Felinfach.
Croesawyd Jenhua, tad Doli, a'i
ofalwraig Nina a oedd wedi dod yr

Llanbedr Pont Steffan

holl ffordd o Taiwan.

Cafwyd adroddiad gan Mary ar Wyl Haf y mudiad. Dywedodd bod Betsan Powys wedi siarad yn eithriadol o dda yno. Aeth ymlaen i rannu pigion o Gyfarfod Blynnyddol y Mudiad lle cyhoeddwyd y byddai'r tâl aelodaeth yn aros yr un faint. Dyfarnwyd mai Llinos Dafis oedd awdur yr erthygl orau a ymddangosodd yn "Y Wawr". Gwnaeth Ceredigion yn dda yn yr Wyl lle bu Eryl a Pat yn cystadlu gyda'r dominos a Dilys yn y gwaith crefft. Daeth Ceredigion yn gyntaf yn y cwis hwyl gyda Changen Bro llar yn ennill.

Cyflwynodd Morwen adroddiad am ei blwyddyn fel llywydd a diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth ac am ymddiried ynddi. Dymunodd yn dda i Mary, Aerwen, Elma ac aelodau newydd y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Etholwyd pwyllgor newydd ar gyfer 2014-15 sef Dorothy James, Eiry Jones, Gwen Jones, Dilwen Roderick, Verina Roberts a Morfudd Slaymaker. Cafwyd cyflwyniadau gan rai o aelodau'r pwyllgor. Cyflwynodd Doli hanes hynod o ddiddorol ei thad Jenhua trwy gyfrwng "Powerpoint". Bu yn byw yng nghyfnod anodd iawn yn hanes Tseina a gorfod ffoi i Taiwan ar ôl yr ail Ryfel Byd. Cyflwynodd Dinah hanes dau dadcu gafodd eu heffeithio gan y Rhyfel Byd cyntaf. Hanes teuluol hefyd oedd testun cyflwyniad Mary wrth iddi gofio am ei thad D.O. Lewis o Sir Benfro. Cyflwyniad o'i gwaith celf oedd gan Aerwen gyda un llun yn bwysig yn hanes ei theulu a llun arall yn bwysig yn hanes teulu ei gŵr. Cafwyd te wedi eu baratoi gan Gwen, Janet a Ceinwen. Enillydd y raffl fisol oedd Gwen. Trefnwyd byddai pawb fydd yn mynd ar y daith ddirgel yn cwrdd ym maes parcio'r "Rookery" am 6.00yh i ddal y bws ar nos Lun Mehefin y 9fed.

Gyrfa Chwist - Cartref Hafan Deg

Ar 23ain o Ebrill cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Cartref Hafan Deg gyda Mrs Gwen Davies, Llanwnnen yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Mai Williams, Tregaron. 2il - Mary Jones, Stryd Y Bont, Llambod. 3ydd - Peter Jones, Llambod. Merched 1af - Morfudd Slaymaker, Llambod. 2il - Eirlys Jones, Cwmann. 3ydd - Eiry Jones, Llambod. Carden Miniature -- Dynion -- Mary Davies, Cwmsychpant. Merched - Sian Jones, Llambod.

Diolchodd y trefnydd Gwen Davies i bawb am eu cefnogaeth.

Ar 7fed o Fai cynhaliwyd Gyrfa Chwist arall yn Cartref Hafan Deg gyda Gwen Davies, Llanwnnen yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Mary Jones, Stryd Y Bont. Llambod. 2il - Brian James, Trelech. 3ydd - Peter Jones, Llambod. Merched - 1af - Gwenda Jones, Talsarn. 2il - Morfudd Slaymaker, Llambod. 3ydd - Dilwen Rodrick, Stryd Y Bont, Llambod. Caden Miniature - Dynion - Ray Jenkins, Llanybydder. Merched - Sian Jones, Llambod. Bwrw Allan - Enillwyr - Dilwen Rodrick a Breian James. Ail - Eiry Jones, Llambod a Gwen Davies, Llanwnnen.

Bydd y Gyrfaoedd Chwist Mis Mehefin ar y 4ydd a 18fed. Croeso cynnes i bawb.

Caniadaeth y Cysegr

Bydd yna gyfle i glywed yr ail raglen o Gymanfa'r Sioe a gynhaliwyd mis Tachwedd diwethaf yn Eglwys Shiloh ar y nos sul Gorffennaf 6ed am 4-30 o'r gloch. Yr arweinydd oedd Twynog Davies gyda Brian Jones wrth yr organ. Bydd yna eitemau unigol gan Gôr Merched Corisma a Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch. Delyth Morgan-Phillips sy'n cyflwyno'r rhaglen. Gwnaed elw o £1000 sydd eisioes wedi ei drosglwyddo i ymchwil Cancr fel rhan o Apêl Garry Davies Llanybydder.

Cymdeithas Hanes

Hen Lyfrgell y Coleg oedd man cyfarfod mis Mai, a chroesawyd cynulleidfadau unwaith eto gan Selwyn Walters, y Cadeirydd. Datganodd ei falchder bod yr Amgueddfa wedi agor, a gofynnodd a fyddai rhagor o'r aelodau yn barod i roi ychydig oriau nawr ac yn y man i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Tri aelod blaenllaw o Glwb Hanes Cilcennin oedd siaradwyr y noson, Ray Williams, cadeirydd; Tony Morgan, ysgrifennydd, ac Aled Jones, aelod o'r pwyllgor. Clywyd sut y daeth y Clwb Hanes i fodolaeth tua phum mlynedd yn ôl, ac wedi sefydlu ei gwefan ei hun, sef 'Cilcennin Cyntaf'.

Siaradodd y tri yn eu tro, a thrwy gymorth lluniau, gwelwyd rhai o gymeriadau Cilcennin dros y blynnyddoedd; adeiladau yn y pentref, y Capeli a'r Eglwys, a chlywed hanes nifer a fu'n gysylltiedig â hwy. Bwriedir weithio at gysylltu'r ardaloedd agos trwy ail-agor nifer o lwybrau; cofnodi'r fynwent; cyd-weithio â chymdeithasau hanes eraill, a chynorthwyo yng ngwaith y Lonlacs, sef taith Treftadaeth o Ystrad Fflur i Aberarth.

Diolchwyd yn gynnes iddynt gan y Cadeirydd, gan rhyfeddu at y gwaith maent wedi ei gyflawni mewn amser byr, eu cariad a'u balchder yn eu plwyf yn amlwg i bawb.

Y daith flynyddol fydd ym mis Mehefin, eleni yn ymweld



Gary Davies a fu'n rhedeg 24 marathon mewn 12 mis yn derbyn siec am £2,000 tuag at Ymchwil y Cancr sef rhan o'r arian a godwyd er cof am Ann Lewis, Bronwydd a gyflwynwyd gan ei hwyrion Megan, Mari, Morgan ac Elin. Bu Ann farw y llynedd ond bu'n aelod gweithgar o Gangen Llanbed Ymchwil Cancr. Defnyddiwyd gweddill yr arian a godwyd er cof amdani i brynu offer sain ar gyfer Capel Bethel Parcyrrhos lle bu Ann yn ysgrifennydd, diacon ac organydd am flynyddoedd a mainc dderw a leolir yn y fynwent. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.



Aelodau Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbedr ar y trip i ymweld â ffermydd yn ardal Y Trallwng a Bishop's Castle.



Ros Jones, ar ran 'Ffair Iechyd Llambod' (sydd wedi dod i ben erbyn hyn), yn cyflwyno rhan o'r arian oedd yn weddill, sef £250.00 i gangen Merched y Wawr Llambod. Yn derbyn ar ran y gangen mae Noleen Davies, Cyn Lywydd; Morwen Thomas, Llywydd; Gwyneth Morgan, Cyn Ysgrifennydd a Janet Evans, Cyn Drysorydd.

â Thalacharn gan gofio can-mlwyddiant geni Dylan Thomas. Bydd y cyfarfodydd misol yn ail-ddechrau ym mis Medi.

Adran yr Urdd

Bu dros hanner cant o blant yn brysur yn gwneud pitsas yn yr Urdd yn ddiweddar. Hefyd cafwyd noson o fingo i gloi gweithgareddau'r adran am y flwyddyn a diolch i Anthea am baratoi'r cŵn poeth blasus.

Llongyfarchiadau i barti unsain yr adran ar ennill cystadleuaeth i bartion unsain yn Eisteddfod Ponrhydfendigaid dan gyfarwyddyd Rhiannon Lewis gyda Lois Williams yn cyfeilio.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Ieuan Roberts, Madryn. Cydymdeimlir â Margaret, Gareth, Helen a'r teulu.

Llanllwni

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Geraint ac Iona, Lluest, Maesycrugiau ar enedigaeth ei merch fach Beca Fflur. Ganwyd hi ar ddiwrnod Sul y Mamau. Wyres fach i John ac Aeron, Clynrhiced Fawr a Lyn ac Avril, Lakefield, Llanybydder.

Cylch Meithrin Llanllwni

Ar nos Iau y 15fed o Fai 2014 cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cylch Meithrin Llanllwni yn Ysgol Gynradd Llanllwni a phenodwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd – Annwen Evans, Parc Lane, Llanllwni. Is Gadeirydd – Carys Jones, Trysor, Llanllwni. Ysgrifynyddes – Rhian Bellamy Powell, Erw Deg, Maesycrugiau. Ysgrifennyddes cofnodion – Ffion Williams. Trysorydd/Person Cofrestredig – Eirlys Owen, Cwmderi, Llanllwni. Is Drysorydd – Catrin George, Haulfryn, New Inn. Gohebydd i'r Wasg – Melanie Davies, Manordeifi, Llanllwni

Yn ystod y Mis mae'r plant wedi bod yn dysgu llawer ar y thema lliwiau, llythrennau, siapau a rhifau yn ogystal â chwarae rôl Swyddfa Bost. Hefyd fe wnaethant fwynhau ymweliad â pharc Llanllwni. Croeso cynnes i Einir George ac Aneurin Davies sydd wedi ymuno â'r Cylch ac wedi ymgartrefu'n dda a chroeso cynnes hefyd i Steffan Davies sydd newydd ddechrau a gobeithio y bydd yn mwynhau ac yn hapus yn y Cylch.

Fe fydd taith Haf y Cylch yn mynd i Fferm Folly ar y 6ed o Orffennaf. Croeso i deulu a ffrindiau ymuno.

Cylch Ti a Fi

Mae yna groeso i rieni a'u plant ddod i Cylch Ti a Fi yn Ysgol Llanllwni ar fore Gwener rhwng 10 yb a 12yp. Nôd y sesiynau Ti a Fi yw cynnig cyfle i rieni/ gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig. Mae'r plant yn cael cyfle i wneud gwaith crefft, canu a chwarae gyda amrywiaeth o deganau sydd gyda ni yn y Cylch. Yn ogystal mae yna groeso cynnes yn eich aros gan Ffion.

Diolch

Dymuna Lewis Davies, Beili Bach ddiolch i bawb am ei caredigrwydd drwy gardiau, anrhegion, negeseuon ac ymweliad ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed. Gwerthfawrogi yn fawr iawn eich haelioni a'ch cariad.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Aeth aelodau Undeb y Mamau ar eu taith blynnyddol ar y 13eg o fis Mai. Gyrrwyd Bws y Gymuned gan Marion Howells, a'r gyrchfan gynta oedd yr Hen Abaty yn Llandudoch. Cawsom ein tywys o

gwmpas yr adfeilion gan Nia, a chyfoethog iawn yw hanes y safle. Roedd y croeso yn gynnes iawn yn y Cartws, a'r cinio yn flasus iawn. Ar ôl sbelen fach yn ardal Poppit i gael awyr y môr, troewyd trwyn y bws i Lancych, ac i Fferm Glyneathinog, cartref Caws Cenarth.

Daeth Carwyn Adams i'n croesawu, ac ar ôl gwylio fideo fer o hanes y busnes o'r cychwyn, aethon i'r hufenfa i wylïo'r broses o'r caws yn cael ei brosesu. Roedd hyn o ddiddordeb mawr i'r aelodau gan fod y rhan fwyaf o gefndir ffermio. Bu cyfle bendigedig i flasgu nifer o fathau o gaws, cyn prynu! Diolch yn fawr i Carwyn am y croeso. I orffen y daith aethom i Genarth, ac ar ôl cerdded a gweld golygfeydd godidog, cafwyd swper hyfryd yn Nhŷ Te. Diolch i Enfys a'r staff am y croeso. Diolch hefyd i Marion, ac am dywydd bendigedig!

Byddwn yn ail gwrdd ym mis Medi, gan ddechrau'r tymor gyda Gwasanaeth o Gymun.

Llongyfarchiadau i Elgan Davies a Natalie White a briodwyd yn yr Eglwys ar 11eg o Ebrill, ac i Sam Vernon a Bethan Roberts a briodwyd ar Ebrill 19eg. Pob bendith iddynt yn eu bywyd priodasol.

Priodas Berl

Llongyfarchiadau mawr iawn i Geraint ac Eiddwen Rees, Maes y Celyn, Llanllwni ar ddathlu eu Priodas Perl ar 26ain Fai 2014.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Isabelle Jones a Pawel Nowak i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac yn hapus yn y caban. Croesawn Mrs Delyth Evans atom i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen fel cynorthwywraig. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Croesawn hefyd Miss Charlotte Tobias i'r Adran Iau. Mae Charlotte yn fyfyrwraig yng Ngholeg y Drindod. Gobeithio y byddi yn mwynhau'r profiad o ddysgu'r plant yng Nghyfnod Allweddol Dau.

Bu blynnyddoedd 1-6 yn ymweld â chanolfan ailgylchu yn Nhre Ioan, Caerfyrddin gan ddysgu am beth sy'n digwydd i'n sbwriel tra bu'r plant lleiaf yn chwarae ym mharc Caerfyrddin. Yna aethom i gyd ymlaen i 'Trysordy' yn Nhre Ioan lle cawsom gyfle i brynu adnoddau wedi eu ailgylchu er mwyn gwneud gwaith celf adref ac yn yr ysgol.

Aeth yr Adran Iau i gystadleuaeth trawsgwlad ysgolion Cylch Llanbedd ar gae Bro Pedr. Llongyfarchiadau i Rowen Woodcraft a fu'n llwyddiannus gan fynd ymlaen



Aelodau CFFI Llanllwni yn eu cinio blynnyddol yng Ngwesty'r Plough Rhosmaen



Dyma saith o fois Y Talardd, Llanllwni a wnaeth seiclo mwy na chan milltir dros Wyl y Pasg i godi arian i'r Uned Dibyniaeth Uchel yn Glangwili a edrychodd ar ôl ein annwyl dafarnwr John yn dilyn ei ddamwain y llynedd! Fe wnaeth John ei hun y daith gyda nhw gan fod yn ysbrydoliaeth llwyr ar hyd y daith!



Creu arwr - Meryl Davies, Rhian Davies a Ceris Howells, CFFI Llanllwni - 1af



Carwyn a Sam, CFFI Llanllwni, 1af yng nghystadleuaeth Gwaith Coed hŷn yn Rali Sir Gâr.

Llanllwni



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn ennill y cyntaf ar yr Unawd a'r Llefaru i ddisgyblion Blwyddyn 2 ac iau yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid.



Yng nghystadleuaeth 'Generation Game' Hŷn Rali CFfl Sir Gâr, cafodd Rhian Davies y wobwr gyntaf.

i drawsgwlad y Rhanbarth yn Aberaeron. Da iawn ti.

Treuliodd bump o ddisgyblion Cyfnod Allweddol Dau benwythnos yn Llangrannog ym mis Ebrill. Cafodd Gwion, James, Thomas, Megan a Hanna amser da gyda digon o weithgareddau i'w diddanu a hefyd siawns i gymdeithasu gyda ffrindiau o ysgolion eraill.

Yn ein sesiynau Urdd rydyn wedi chwarae Tipit, cystadleuaeth 'Sion a Sian', helfa drysor Pasg, criced, rownderi ac i orffen cawsom ein trip pan aethom i fowlio deg a chael swper yn Nhre Ioan. Campau'r Ddraig sydd gennym dros yr wythnosau nesaf lle rydyn yn datblygu ein sgiliau athletau.

Rydyn yn ddiolchgar i berchnogion y Swyddfa Bost am rodd o £40 sef elw y raffl Nadolig. Cawsom £100 o Bag2School, felly diolch i bawb a ddaeth â bagiau o hen ddillad. Daeth cwmni Finesse i dynnu lluniau'r plant yn unigol, teuluoedd a'r ysgol gyfan yn ddiweddar.

Erbyn bydd rhifyn yma allan byddwn wedi bod yn casglu sbwriel o gwmpas y pentref fel rhan o Ymgrych Glanhau Sir Gâr. Ein gweithgaredd nesaf i godi arian tuag at yr ysgol yw Helfa Drysor a fydd yn cael ei gynnal brynhawn Sul, Mehefin 29fed.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Ebrill a Mai:- Ebrill: 1af - £10 - 144 - Emrys Evans, Ceunant, Llanllwni. 2ail - £5 - 53 - Elgan Thomas, c/o W.D.Lewis, Llambled. 3ydd - £5 - 96 - Wendy Davies, 14 Bryndulais, Llanllwni. Mai: 1af - £10 - 284 - Josh Goodchild, Llys Teifi, Maesycrugiau. 2ail - £5 - 270 - Tom Lewis, Anneddlo, Pencader. 3ydd - £5 - 109 - Steffan Davies, Llwynglas, 23 Glannant Road, Caerfyrddin.

C.Ff.I. Llanllwni.

Cafwyd diwrnod rali llewyrchus

iawn eleni eto ar ddechrau mis Mai. Dyma restr o'r unigolion a chystadlaethau a ddaeth yn safle'r tri uchaf :- Gwaith Coed Hŷn - Carwyn Lewis a Sam Joynson - 1af; Creu arwr - Meryl Davies, Rhian Davies a Ceris Howells - 1af; Generation Game Hŷn - Rhian Davies - 1af; Generation game Iau - Sara Thomas - 2ail; Crefft Iau - Marek Phillips - 2ail; Hybu Elusen - Elin Evans, Nerys Thomas, Ffion Rees ac Owain Davies - Cydradd 3ydd; Ceginio hŷn - Marek Phillips a Siriol Howells - 3ydd; Arddangosfa Clwb - Meryl Davies, Sioned Howells, Sioned Bowen a Jasmine Davies - Cydradd 3ydd; Tîm Tynnu'r gelyn - Bechgyn - 3ydd.

Heb amheuaeth uchafbwynt y diwrnod oedd gweld aelod gweithgar o'r clwb - Meryl Davies - yn cael yr anrhydedd o fod yn Llysgenhades y Sir am y flwyddyn sydd i ddod. Llongyfarchiadau enfawr i ti Meryl am ddod ac anrhydedd nid yn unig i ti dy hun ond i holl aelodau clwb Llanllwni, a phob lwc i ti am y flwyddyn sydd i ddod. Ma siŵr o fod blwyddyn brysur o dy flaen. Ar ddiwedd y dydd daeth canlyniadau anrhydeddus iawn yn ôl i glwb Llanllwni - yr adran Iau yn gydradd 4ydd a'r adran hŷn yn y trydydd safle. Rhaid oedd dathlu'r holl waith caled a chanlyniadau'r dydd wrth gwrs, ac nid oedd rhaid mynd yn bell eleni, gan fod dawns y Rali yn agos iawn i ni aelodau Llanllwni ar fferm Blaenblodau. Yn dilyn ein llwyddiant o fod yn fuddugol yn yr adran iau yn y rali'r llynedd, ein tro ni oedd stiwardio'r ddawns ar y noson. Dymunwn ddiolch i'r rhieni a ffrindiau a fuodd yn stiwardio ar ein rhan hyd oriau man y bore.

Croeso i chi ymuno â ni ar nos Wener 13eg o Fehefin yn ein Helfa Trysor, sydd yn dechrau o neuadd yr Eglwys o 6.30yh ymlaen. Nodwch y newid yn y dyddiad!


Ras yr Iaith



Noddwyr Cymal Llanbed Pont Steffan

Cynhelir Ras yr Iaith i gefnogi'r Gymraeg dydd Gwener 20fed Mehefin 2014, fydd yn teithio trwy Ceredigion o Aberystwyth i Aberteifi. Bydd yn ymweld â Llanbed a Cwmann felly dewch i gefnogi'r ras sy'n cychwyn am 2.00 o'r gloch yn Ysgol Carreg Hirfaen, yn ymweld ag Ysgol Bro Pedr, ac yn gorffen yn y Clwb Rygbi. Am fwy o fanylion ac i gofrestru os am redeg Cymal Llanbed o'r ras, cysylltwch gyda Ras yr Iaith: Ffôn: 01545 572350, e-bost: post@rasyriaith.org, Gwefan: <http://rasyriaith.org/>

Mae Pwyllgor Cymal Llanbed o'r ras yn ddiolchgar iawn i nifer o unigolion, gwmnïau a mudiadau lleol am noddi Cymal Llanbed o'r ras. Cewch restr isod o'r noddwyr hyd yn hyn a chwilair ple mae enwau'r noddwyr wedi eu cuddio! A allwch ddod o hyd i'r noddwyr? Pob hwyl i chi a chofiwch gefnogi ein noddwyr!



Bwyty Lloyds
Capel Noddfa
Capel Shiloh
Clwb Rotari
Gwili Jones

Cyngor Tref Llanbed
D L Williams
Ford Gron
Teiars Huw Lewis

Hag Harri
J H Williams Crown Stores
Merched y Wawr
Tafarn Llain y Castell

Gwaith Dros Natur Your time in nature

Cyfle i chi fwynhau ein gwarchodfa natur 40 erw unigryw. Ymunwch â ni am ddigwyddiadau gwirfoddoli drwy gydol y flwyddyn - gan feithrin eich sgiliau, helpu i gynnal y gwahanol gynefinoedd a'r fioamrywiaeth gyfoethog yng Nghanolfan Gadwraeth Fferm Denmark.

**Digwyddiad blasu - dydd Sadwrn 7 Mehefin
10.30 - 1.30pm. Darperir cinio ysgafn.**

An opportunity for you to enjoy our unique 40 acre nature reserve. Join us for volunteer events throughout the year - building your skills, helping maintain the varied habitats and rich biodiversity at Denmark Farm Conservation Centre.

**Taster event - Sat 7th June 10.30-1.30pm
with light lunch provided.**

www.denmarkfarm.org.uk



CANOLFAN GADWRAETH
ffermDENMARKfarm
CONSERVATION CENTRE

**Archebwch eich lle Please book your place
volunteer@denmarkfarm.org.uk 01570 493358**

Cwmsychpant

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Pollock, Brynmeddyg ar ennill yr ail wobwr yng nghystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg Bl. 7 ac 8. Braf oedd gweld ei gwaith yn cael ei arddangos yn Eisteddfod yr Urdd yn y Bala ar ddiwedd mis Mai.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Mrs Mary Davies, Maesnewydd ben-blwydd arbennig ar ddiwedd mis Mai. Gobeithio y cawsoch chi ddiwrnod wrth eich bodd.

Diolch

Dymuna Gareth, Nanna, Deian ac Einir ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli tad a thad-cu annwyl. Diolch hefyd am y cyfraniadau er cof am Jackie tuag at Gapel-y-Cwm.

Celf a Chrefft yr Urdd

Llongyfarchiadau i 3 o blant yr ysgol Sul ar ennill ar waith Grŵp Creadigol 3D Bl 2 ac Iau gydag Ysgol Gynradd Cwrtnewydd yn yr Eisteddfod yn Bala yr wythnos diwethaf sef Jac Rees, Elis ac Elan Jenkins. Roedd Megan Davies gyda hwy hefyd yn ran o'r tîm llwyddiannus o'r ysgol.

Llongyfarchiadau

Cafodd plant y Cwm nifer o wobrau mewn gwahanol Eisteddfodau yn ystod y gwanwyn – da iawn chi a daliwch ati.

Barbiciw a Cwis

Nodyn i'ch dyddiadur – cofiwch os am farbiciw blasus a bach o hwyl yn dilyn – wel y lle i fod fydd Capel y Cwm ar nos Wener, Gorffennaf 4ydd am 7:30 o'r gloch. Cofiwch ddod.

Gorsgoch

Babis newydd

Llongyfarchiadau i Gwilym ac Eirwen Evans, Gwynfryn ar ddyfodiad ddau fabi i'r teulu a hynny ar yr un diwrnod. Ganwyd mab bach i'w merch Mandy a'i gŵr Dylan yng Nghwmman sef Cai Llewelyn ac hefyd ganwyd merch fach Beca Mai i'w hŵyr Arwel a'i bartner Donna – felly ŵyr a gor-wyres ar yr un diwrnod – tipyn o hanes felly i chwi.

Pen-blwydd priodas

Llongyfarchiadau i Dannie a Martha Davies, Llain-gors, sy'n dathlu pen-blwydd priodas deiamwnt ar y 5ed o Fehefin. Tipyn o gamp glei! Mwynhewch y dathlu!

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir ag Eirwen a Gwilym, Gwynfryn yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith.

Pencarreg

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Carys Ann, Coed y Llyn ar ei llwyddiant theori gradd 1. Fe basiodd mewn steil gan gael clod yn yr arholiad. Da iawn ti Carys, edrychwn ymlaen am ragor o ganlyniadau gennynt yn y dyfodol.

Gwellhad

Da yw deall bod y ddau gefnder Dewi Evans, Blaenbidernin ac Eifion Evans, Tower Hill adref o'r ysbyty ac hyn gwella dref ar eu haelwydd.

Teifi Hector

Llongyfarchiadau i Dafydd Thomas, Dolgwm Uchaf, ar ei lwyddiant yn arwerthiant Cymdeithas Prydain o'r gwartheg Limousin a gynhaliwyd ar Fai 10fed yn Aberhonddu.



Da iawn ti am sicrhau'r cerdyn coch yn dy arwerthiant cyntaf a'r pris uchaf am y tarw, Teifi Hector yn yr arwerthiant. Pob lwc eto i Fridaf Teifi Limousin am y dyfodol.

Cymorth Cristnogol

Mae Ruth Jones, Min y Llyn wedi bod yn brysur unwaith eto yn casglu ar gyfer Cymorth Cristnogol. Casglodd £63.05 ac mae am ddiolch yn fawr i bawb am eu haelioni fel arfer yn ardal Pencarreg.

Ceffylau Gwedd

Ers nifer o flynyddoedd ar fy ffordd i'r gwaith yr adeg yma o'r flwyddyn byddaf yn edrych yn eiddgar i'r cae wrth basio fferm Llwyn-crwn gan lawenhau bob tro wrth weld swclyn newydd yn sugno'r gasg wedd. Mae'n olygfa hyfryd ac i mi yn cloriannu dyfodiad bywyd o'r newydd i'n bro a byd natur yn deffro o'i drwmgwsg am flwyddyn arall.



Mae Eleri Llwyn-crwn yn gyfrifol am greu Sioe Ceffylau Gwedd, Gorllewin Cymru fydd yn cael ei chynnal ar Gorffennaf 27ain yn Llanybydder. Bydd stondinau a phob math o weithgareddau diddorol yno i blant ac oedolion.

Edrychwn ymlaen at y digwyddiad eleni eto.

Colofn Cefn Gwlad

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad
Cyfoeth Naturiol Cymru



Clefyd y Coed


Mae'n braf cael gweld yr amrediad o'r lliw gwyrdd ar ein coed a'n llwyni'r adeg yma o'r flwyddyn. Ond, a ydych chi wedi sylwi eleni ar y nifer o goed sydd heb ddeilio, neu fod eu dail yn edrych yn frown ac yn gwywo? Mae yna nifer o glefydon yn effeithio ar ein coed yma yng Nghymru ond y ddau bechadur mwyaf yw phytophthora ramorum a chalara fraxinea.

Pathogen yn debyg i ffwng yw phytophthora ramorum sy'n achosi clefyd mewn amrywiaeth o blanhigion, ac mae'n creu difrod mawr i'n hamgylchedd. Ers iddo gael ei ddarganfod am y tro cyntaf yn ne-orllewin Lloegr yn 2003, mae wedi lledu ar hyd Prydain. Cyhaeddodd y clefyd yn ardal Coed y Cymoedd yn Ne Cymru yn 2010 ac mae wedi creu difrod mawr i'r diwydiant coed a'r amgylchedd. Mae ardaloedd helaeth o'r goedwig yn Afan Argoed wedi cael eu torri oherwydd bod y coed wedi'u heffeithio ac i geisio ymatal y clefyd rhag lledu ymhellach. Mae p. ramorum yn effeithio ar nifer o blanhigion fel rhododendron, viburnum a camellia, sy'n cael eu plannu yng ngherddi. Ond y mae'n effeithio yn arw ar goed Llarwydd, sydd wedi bod yn ergyd mawr i'r diwydiant coedwigaeth.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i geisio atal i p.ramorum ledu yma yng Nghymru. Yn ystod 2013, gwnaethom ddarganfod y clefyd dros ardal eang, hyd at 3000 hectar. Eleni, hyd yn hyn rydym ond wedi darganfod 40 hectar o goed wedi'u heintio. Rydym wedi torri dros 2 miliwn o goed i atal y clefyd, ac rydym dal i dorri coed mewn ardaloedd fel Cwmcarn ger Caerffili. Rydym wedi ail-blannu yn yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio ac o'r 3.4 miliwn o goed gwnaethom blannu ar draws Cymru yn ystod y deunaw mis diwethaf, plannwyd 750 mil o'r rhain i gymryd lle'r coed cafwyd eu torri ar gyfer p.ramorum. Er mwyn diogelu ein coedwigoedd rhag peryglon clefydon y dyfodol, rydym yn plannu amrywiaeth o goed gan gynnwys coed llydanddail cynhenid fel derw, cerdin a phisgwydd. Rydym hefyd yn plannu coed fel y byrwydden Sitca i ddiogelu cyflenwad ar gyfer y diwydiant prosesu coed yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau fod coedwigoedd o dan ein rheolaeth yn fannau gwell i hymweld â hwy, ac yn ddiogel rhag bygythiad clefydon ac effeithiau newid hinsawdd y dyfodol.

Am wybodaeth ar sut i atal lledu p.ramorum, cewch fanylion ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). Gallwch hefyd gymryd camau i'n helpu gan gadw at lwybrau penodol o fewn y goedwig, cadw eich ci ar dennyn, a glanhau eich esgidiau, dillad a'ch beic mynydd o bob arwydd o bridd, dail a gweddillion planhigion wedi eich ymweliad i'r Goedwig.

Clefyd sy'n effeithio ar un o goed cynhenid Cymru yw chalara fraxinea (ash dieback disease yn Saesneg), ffwng arall, sy'n effeithio ar yr Onnen. Mae'r clefyd yn achosi i'r coed golli dail ac yn lladd y goron, sy'n farwol i'r planhigyn. Mae'r clefyd wedi achosi difrod mawr i goedwigoedd ar hyd Ewrop ac y mae'n gallu lledu drwy'r gwynt hyd at 10 milltir. Credir i'r clefyd ddod i Brydain ar goed ifanc a gafodd eu mewnforio o'r Iseldiroedd. Ond mae achosion o'r clefyd wedi cael ei darganfod ar goed aeddfed mewn coedwigoedd yn ne-Lloegr. Mis Mai'r llynedd, darganfuwyd achos yn ne-orllewin Cymru. Mae chalara fraxinea yn cael ei drin fel haint cwarantyn dan amodau argyfwng cenedlaethol a dylid adrodd unrhyw achos at y Llinell Gymorth Chalara - 08459 33 55 77.



p.ramorum wedi effeithio ar ddail rhododendron.



chalara fraxinea wedi creu niwed i goed onnen.

Llanybydder

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis gwelwyd colli Winston Daniels o Heol y Gaer yn sydyn. Cydymeimlir yn ddwys gyda'r plant Ann, Keith a Jason a'r cysylltiadau teuluol i gyd yn eu profedigaeth. Bu'r angladd yn Eglwys Llanybydder ac fe gladdwyd ei weddillion ym mynwent Esgairdawe.

Hefyd cydymdeimlir gyda Glenys Thomas, Llys Teifi, Station Terrace a'r teulu i gyd hefyd a'i brawd Danny a'i wraig Ann, Bryn Coch ar golli eu chwaer Ceris Doyle a oedd yn byw yng Nghaerfyrddin. Bu'r angladd yn gyhoeddus yn Eglwys Gatholig St Mary's yn y dre.

Yn ddiweddar bu Richard Brooker, Heol y Dderi farw yn dilyn brwydr hir yn erbyn afiechyd, mab Lyn a Sally a brawd annwyl Rhiannon a Rosalyn a'u teuluoedd hwy. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Llanfihangel ar Arth ac yna yn Amlogfa Aberystwyth.

Gobeithio bydd y teuluoedd oll yn derbyn ein cydymdeimlad dwysaf ar adeg eu profedigaethau.

Noson Goffi

Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn Festri Aberduar ar nos Wener, Mai 16eg o dan nawdd Pwyllgor Buddiannau'r Henoed. Llywydd y noson oedd Gary Rees a'i briod Jane. Rhoddodd araith bwrpasol a chyfrannodd yn hael

iawn i'r coffrau.

I ddiddanu'r gynulleidfa oedd plant ysgol Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin a chafwyd llawer o fwynhad ar y noson wrth wrando ar y plant. Mawr yw gwerthfawrogiad y Pwyllgor i chwi i gyd.

Gwerthwyd y nwyddau ar y stondinau yn gyflym – bu pawb yn hael iawn wrth gyfrannu a phrynu – diolch.

Enillwyr y raffl oedd :- 1. 470624, 2. 422234, 3. 07729 386819, 4. Cyfraniad yn ôl i'r pwyllgor, 5. Tegwyn – 480577, 6. Dilys Thomas, 7. Miriam – 480760, 8. Thomas – 480960, 9. Williams – 481127, 10. Kelly – 480635.

Dymuniad y Pwyllgor yw diolch i bawb am bob cyfraniad ac hefyd am unrhyw help mewn amryw ffordd i sicrhau llwyddiant y noson. Hefyd i'r dyrfa luosog am eu presenoldeb ar y noson. Croeso i aelodau newydd i ymuno gyda'r Pwyllgor nesaf ar Hydref 7fed am 7 o'r gloch yn yr ysgol.

Wythnos Garnifal Llanybydder

Mehefin 22-28 - Fe fyddwn yn cychwyn nos Sul gyda Gymanfa Ganu yng Nghapel Aberduar am 6:30 o'r gloch gyda Mrs Elonwy Davies yn arwain. Yn ystod y noson bydd plant yr ardal yn diddori.

Nos Fawrth – cynhelir Bingo yn y Clwb Rygbi am 8 o'r gloch.

Nos Fercher – cerdded o gwmpas



Agorwyd y noson goffi a gynhaliwyd dan nawdd Pwyllgor Buddiannau'r Henoed gan Gary Rees Garej yr Orsaf Llanybydder.

y pentref yn chwilio am drysorau yn cychwyn tu allan i'r Clwb Rygbi am 6:30 o'r gloch.

Nos Wener – cwis fydd ymlaen yn y Clwb Rygbi am 7:00 o'r gloch.

Dydd Sadwrn – Carnifal a'r Mabolgampau i ddechrau am 1:30 o'r gloch. Bydd y band, lori'r frenhines a'r orymdaith yn dechrau o'r Mart am 1:00 o'r gloch gan fynd drwy'r pentref draw i gae rygbi O.J. Rydym yn ffodus i gael Mr a Mrs Daniel Thomas, Llys Neuadd, Llanybydder fel ein Llywyddion eleni.

Yn yr hwyr cynhelir disgo i'r plant i ddechrau am 6:30 o'r gloch yn y Llew Du ac yn dilyn dawns i'r oedolion. Diwrnod o hwyl i bob oedran – croeso cynnes i bawb.

£17.50 yw pris
Tanysgrifiad
Blwyddyn Papur Bro
Clonc.
Beth am ei brynu fel
anrheg i rywun?

Cysylltwch â
Mary Davies,
ysgrifenyddes Clonc
ysgrifennydd@
clonc.co.uk

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu'r arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i:

Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.
Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST:

RHIF FFÔN:



ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code: - - - - -

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay Nat West, Llanbedr Pont Steffan 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2014 Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af
1st July 2014 Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice with me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:

Agoriad Swyddogol Amgueddfa Llambled

Roedd Mai 16eg yn ddiwrnod hanesyddol yn nhre Llambled, yn gwireddu breuddwyd i nifer, ond yn enwedig i Selwyn Walters, Cadeirydd Cymdeithas Hanes Llambled. Ers iddo ddod i Llambled tua deugain mlynedd yn ôl, mae wedi edrych ymlaen at weld y dre yn cael ei hamgueddfa ei hun, ac er fod yna gryn amser wedi mynd heibio, fe ddaeth yna gyfle tua phedair blynedd yn ôl i hau'r hedyn. Eginodd y syniad, a daeth cynnig oddi wrth Coleg Prifysgol Llambled Y Drindod Dewi Sant i ddefnyddio'r Hen Borthordy (Porter's Lodge) ger prif fynedfa'r Coleg fel man i greu Amgueddfa. Yn ogystal, ariannwyd y gwaith o adnewyddu'r adeilad gan gynllun 'Cynnal y Cardi' drwy Gyngor Sir Ceredigion, a thrwy gydweithrediad y Coleg, Cynnal y Cardi a'r Gymdeithas Hanes, - sy'n dathlu 10 mlynedd o fodolaeth eleni, - mae'r cywaith wedi ei gyflawni.



Croesawyd y gwsteion i'r agoriad swyddogol gan Selwyn Walters, gan roi cefndir y broses i bawb, cyn gwahodd Yr Athro Denzil Morgan, Miss Elin Jones, AC; Mr Mark Williams, AS a Mr Gareth Lloyd, cadeirydd Cynnal y Cardi i ddweud gair. Torrwyd y rhuban gan Faer y Dre, y Cyng. Elsie Dafis, a dymunodd pob llwyddiant i'r amgueddfa o hyn ymlaen.

Trannoeth, agorwyd i'r cyhoedd, a bu yna fynd a dod drwy'r dydd, a phawb yn dangos cryn ddiddordeb yn y casgliadau. Bydd yr Amgueddfa ar agor bob dydd Mawrth, Iau a Sadwrn o 10 yb tan 4yp, a gwirfoddolwyr o'r Gymdeithas Hanes ar ddyletswydd yno. Croeso cynnes i bawb i alw i mewn.

Mae'r Amgueddfa yn cynnwys casgliad o arteffactau lleol, Mae'r brif arddangosfa gyntaf yn gasgliad o eitemau yn coffáu cysylltiadau Llambled â'r Rhyfel Byd Cyntaf - yn arbennig yn y flwyddyn 1914. Er bod Llambled gannoedd o filltiroedd i ffwrdd o ffosydd Gogledd Ffrainc, roedd cysylltiad y dref gyda'r Rhyfel Mawr yn eithaf sylweddol. Roedd sgwadron Iwmyn Penfro, a ddaeth yn hwyrach yn rhan o'r Gwarchodlu Cymreig, wedi'u lleoli yn Llambled cyn cael eu danfon i'r Aifft, ac yna Palestina. Mae'r cynnod pwysig hwn yn hanes cymdeithasol Llambled yn cael ei nodi gyda chasgliad o eitemau a roddwyd gan bobl leol neu drwy atgofion rhai sydd â chysylltiadau agos at y dref gan gynnwys Evan Harries, Arthur Lloyd Jones a Watkin Evan Jones.

Mae amrywiaeth o eitemau yn cael eu harddangos yn yr Amgueddfa yn olrhain datblygiad Llambled fel tref ac yn nodi ei harwyddocâd diwylliannol ac amaethyddol yn ogystal â dathlu ei threftadaeth gyfoethog. Mae'r Amgueddfa hefyd yn ganolfan bwysig ar gyfer ysgolion a phlant yr ardal, gan roi cyfle i bobl ifanc y dref archwilio eu cefndir a'u hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Yn ychwanegol i arteffactau lleol, mae'r amgueddfa yn gartref i arddangosfa fydd yn olrhain hanes y Coleg - o gyfnod ei sefydlu yn dilyn syniad beiddgar gan Esgob Tyddewi 'nôl ym 1804, hyd at heddiw. Mae'r Amgueddfa yn rhoi cyfle i bobl leol ac ymwelwyr ddysgu mwy am y Brifysgol a'i hanes unigryw fel y sefydliad dyfarnu graddau hynaf yng Nghymru a Lloegr, y tu allan i Rydychen a Chaergrawnt.

Mae digwyddiadau pwysig hefyd yn cael eu nodi yn yr Amgueddfa, gan gynnwys hanes Eisteddfod Llambled - Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen; coffau deng mlynedd ar hugain ers i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld ddiwethaf â'r dref, a chyfraniad pobl leol, gan gynnwys Jac Oliver, y Bardd Farwr i ddiwylliant y dref.

Dywed Selwyn Walters, Cadeirydd Hanes Llambled "Mae'n holl bwysig bod gan dref o statws a phwysigrwydd Llambled ganolfan ymroddedig i ddathlu ei threftadaeth a'i hanes, ac

rydym yn falch iawn bod yr amgueddfa hon nawr wedi agor. Rydym yn ddolchgar iawn i'r Brifysgol am ganiatáu i ni ddefnyddio'r cyn adeilad y Porthor fel cartref i'r amgueddfa - mae ei leoliad yn ddelfrydol gan ei fod yng nghanol bwrlwm y dref. Rydym yn gobeithio y bydd y lleoliad hwn yn helpu i ychwanegu at atyniadau'r dref yn ogystal â gwella profiad yr ymwelydd. Bydd pwynt twristiaeth yn cael ei leoli o fewn yr adeilad i helpu gyda'r amcan hwn.

"Rydym hefyd yn ddolchgar iawn i'r prosiect Cynnal y Cardi a ariannodd y Brifysgol i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r adeilad. Dyma freuddwyd sydd wedi'i gwireddu ac rydym yn gobeithio y bydd yn adnodd fydd yn gwasanaethu'r gymuned am flynyddoedd lawer i ddod."

Yn ogystal â bod yn amser cyffrous i aelodau o Hanes Llambled, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) hefyd yn edrych ymlaen at roi cartref i'r Amgueddfa ar gampws Llambled. Fel cartref Cyfadran Dyniaethau'r Brifysgol sy'n cynnig cyrsiau mewn pynciau megis Hanes; Archaeoleg; Clasuron; Astudiaethau Treftadaeth a Threftadaeth gydag Amgueddfeydd ac Archifau; mae'r Amgueddfa yn mynd i fod yn ychwanegiad gwyh i'r campws.

"Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn falch iawn o gydweithio gyda Hanes Llambled ar y fenter gyffrous hon. Mae myfyrwyr ar draws y Brifysgol yn cael eu hannog i gynorthwyo, ac yn eu tro, ennill profiad gwerthfawr drwy weithio gyda'r gwirfoddolwyr i gurau arddangosfeydd, "meddai Dr Jeremy Smith, Dirprwy Ddeon Cyfadran y Dyniaethau.

"Wedi bod yn rhan o'r dref ers 1822, mae'n wych bod y Brifysgol nawr yn mynd i fod yn gartref i ganolfan sy'n dathlu hanes Llambled, ei phobl a'i threftadaeth.

"Rydym yn falch iawn o fod yn rhan o'r prosiect gwerth chweil hwn ac ry'n ni'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda Hanes Llambled er mwyn sicrhau bod yr Amgueddfa yn llwyddo fel adnodd pwysig i'r dref a'i hymwelwyr," ychwanega.

Mae Campws Llambled eisoes yn gartref i Lyfrgell ac Archifau Roderic Bowen sy'n cynnwys casgliadau arbennig sydd wedi'u hel dros y ddau gan mlynedd diwethaf. Bydd un o'r darnau mwyaf diddorol - y Siarter Frenhinol o 1822 sydd wedi'i lofnodi gan Frenin Siôr IV a arweiniodd at sefydlu'r Brifysgol - yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa newydd yn ystod y penwythnos agoriadol.

Dywed Peter Hopkins, Curadur Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen, "Yn ychwanegol i'n casgliad o lyfrau prin a llawysgrifau canoloesol ac ôl-ganoloesol - un o'r casgliadau gorau o'i fath yng Nghymru - mae Canolfan Ymchwil Roderic Bowen yn gartref i archif hynod ddiddorol o ffotograffau, gweithredoedd a dogfennau eraill sy'n adrodd hanes y Brifysgol o'i dechreuad yn 1804 hyd at agoriad amgueddfa newydd Llambled yng nghyn adeilad y Porthor.

"Mae Archif Roderic Bowen Archif yn drysorfa ryfeddol ac yn dyst i gyfraniad sylweddol Llambled i Gymru a thu hwnt, ac rydym yn bwriadu adrodd peth o'r hanes diddorol hwn yn yr amgueddfa newydd."

Ariennir y prosiect gan 'Cynnal y Cardi,' prosiect LEADER Echel 4, a gyllidwyd hwn drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013. Mae hyn yn ei dro wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sian-Elin Davies sian-elin.davies@tsd.uwtsd.ac.uk / 01267 676908





Enw: Guto Jones

Oed: 23

Pentref: Llanfair Clydogau

Gwaith: Prif weithredwr adran amaeth LlanfairFach

Teulu: Debs a Dave, Maredd, Dafydd, Nia a Laura!

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Chware ar sachau gwlan ar ddiwrnod cneifio.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Odd Mam arfer rhoi 'Nyth Cawn' mlaen i gadw fi'n dawel.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Mynd i gino C.Ff.I ac anghofio tynnu labelu off y crys a'r siwt newydd.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

'Byt gloi, achos bydd dim ar ôl nes mlaen'

Y CD cyntaf a brynast di erioed?

Yr unig CD brynes i odd 'The ultimate Party Animal', wedi bod yn dwyn oddi ar Nia ers ny.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Ffarmwr.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Pan dorrodd y da mewn i gaeau seilej achos bod fi heb gau gât mis dwethaf.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?

Prynu Mcflurry yn drive through McDonalds.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?

Boi gwerthu feeds yn dweud 'mod i'n debyg i George North, ond fi'n credu achos ffordd fi'n chware rygbi yw e.

Pwy yw dy arwyr?

Ryan Giggs, 24 o flynyddoedd yn anhygoel!

Beth yw dy arbenigedd?

Ymestyn pethe o'r shelfff top!

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Dim un diwrnod yr un peth.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?


Godro bore dydd Sul ar ôl cwrw.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Cefn gwlad ym mhob man efo sawl cymeriad od.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Busnesau lleol yn cau.



Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?

Ci, a byw yma yn Llanfair Fach, achos ma bywyd go dda 'da nhw.

Pa mor wyrdd wyt ti?

Dim rili, ma da fi un jymper wyrdd, ond bachan coch neu glas fel arfer.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?

Llai o waith papur i ffermwyr.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Bwcio tocyn i wyllo taith Llewod yn Seland Newydd yn 2017.

Beth sy'n codi ofn arnat?

Uchder, Gwaith Papur a Maredd!

Pryd lefaist ti ddiwethaf?

Pan ddaeth bywyd y ford focus ghia i ben ar ôl rhoi menthyg e i Dad.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?

Sai'n siwr, ond yn ganol cino dydd sul ar ôl bod ar y pop noswaith cynt yw'r un mwyaf cofiadwy.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Byth yn mynd yn grac.

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?

Bod Maredd ddim yn gallu menthyg y pickup achos bod y clutch wedi torri.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?

Ar bench sgwâr top Aberystwyth.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?

Yn amal yn cael breuddwyd o ddreifo tractor mewn i 'slurry pit' achos sdim brecs da fi.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Western Mail Sport, Farmers Weekly a Clonc.

Unrhyw ofergoelion?

Codi llaw ar biden.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n bersonol?

Mynd mlaen i Gymru efo C.Ff.I i berfformio Drama Nyth Cawn

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Ddim anfon teust i Warren Gatland fy mod ar gael i helpu pan odd e'n brin o ail reng yn y chwe gwlad!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?

Llaeth am Faeth.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Hyfforddwr Personol Huw Henbant yng Nghanolfan Hamdden Llambod

Beth yw'r cyngor gorau gest di?

Ma prynu car fel pigo bin mwya' ffansi i dwlu arian mewn iddo (er 'mod i newydd brynu car).

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Gofyn i Dad os allen i ddechre Godro blynydde maeth yn ôl.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Hapus, Doniol, Lletwith

Beth yw barn eraill amdanat ti?

Ma Laura yn dweud Stwbwrn, ond sai'n credu bod hi wedi deall y cwestiwn.

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Audi A3

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Gwyllo Rhydian 'Twin' yn chware Rygbi. Ma fel gwyllo Jonah Lomu yn chware!!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinease.

Beth yw dy ddiod arferol?

Lager strê

Beth yw dy hoff wisg?

Shorts a sandals

Sut wyt ti'n ymlacio?

Soffa.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?

BBC Sport a Facebook.

Hoff gân ar dy ipod?

U2 Beautiful day

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Aled 'Slic'

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Bydde cefn cryfach yn help mowr

Beth sy'n rhoi egni i ti?

Llund bowlen o Weetabix a Wŷ a Bacwn bob bore

Ar beth y gwnest orwario arno?

Trip llynedd i Seland Newydd i neud siwr bod Iestyn Russell yn iawn mas na.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Y tractor 'Same', dros 10,000 o orie a dal yn mynd yn gryf.

Y dylanwad mwyaf arnat ti.

'Nath Dad, Dafydd a Ronnie ddysgu llawer i mi wrth dyfu lan.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?

Teulu a ffrindiau

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Dechre teulu, Tŷ fy hunan a ennill gêm i Llambed efo 'drop goal'.

Arferion gwael?

Gadael pethe munud diwethaf.

Unrhyw dalentau cudd?

Cadw'n cwl mewn unrhyw sefyllfa.

Pa sioc alli di roi i ni?

O'n i dros pythefnos yn hwyr yn cael fy ngeni, sydd yn rhoi gwd syniad y fath o berson ydw i!

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?

Rhewi amser, allen i neud llawer mwy mewn diwrnod

Petaet ti'n anwladwy am ddiwrnod, beth fyddet ti'n ei wneud?

Aros yn gwely a pheidio codi i odro.

Cyfrinachau nesaf: **Luned Mair**



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel wrth i mi ysgrifennu'r llythyr yma atoch mae'r haul yn gwenu'n braf arnaf ac rwyf wrth fy modd yn torheulo yn yr ardd. Digon o hufen iâ a sudd oren oer. O dyma'r bywyd i grwbau fel fi!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun y bwgan brain mis diwethaf. Da iawn chi gyd. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Alwena Mair Owen o Lanllwni a Ffion Haf Morgan o Gribyn. Ond llun gorau'r mis yw un Garan Davies, 14 Maesaeron, Talsarn, Llambled. Llongyfarchiadau mawr i ti Garan!

Ddoe mi fues yn chwarae am hydoedd gyda fy ffrind Caradog y gwningen ym mharc y pentref. Mi fues i'n hedfan ar y siglen, chwyrlio ar y chwyrlligwgan a siglo ar y si-so a'r ceffylau siglo. Ond fy hoff reid yn y parc yw'r llithren hir. Ydych chi'n hoffi mynd ar y llithren? Wel beth am fynd ati i liwio'r llun o'r plant hyn yn mwynhau ar y llithren? Cofiwch ei ddanfôn nôl ata i erbyn 19eg Mehefin.

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Garan
Davies




Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



RHAGOR O ENWAU LLEOEDD SIR FEIRIONNYDD (64)

Y tro diwethaf manteisiwyd ar y cyfle i drafod rhai enwau lleoedd yng nhyllch y Bala. Gan mai Eisteddfod Sir Feirionnydd yw enw swyddogol eisteddfod 2014, awn ati y tro hwn i ystyried ychydig o enwau mewn rhannau eraill o'r sir.

Yn ôl traddodiad enwyd Meirionnydd ar ôl Meirion, mab Tybion mab Cunedda. Ym mhlwyf San Ismel yn Sir Gaerfyrddin, sut bynnag, y ceir yr unig safle sy'n dwyn enw sylfaenydd traddodiadol teyrnas Gwynedd sef Allt Cunedda ac yn wreiddiol cyfeiriad yr enw at fryngaer o'r Oes Haearn.

TRYWERYN

'Gwerynnu' yw elfen sylfaenol yr enw hwn. Ei ystyr yw gwlychu'n helaeth ac mae'n air anghyfarwydd hollol i'r rhan fwyaf ohonom ni erbyn hyn. Mae'n bosibl bod yr enw'n cyfeirio at ran o afon Tryweryn, rhannau isaf o'r afon, a oedd yn dueddol iawn o orlifo'i glannau. Mae'r afon yn llifo o Lyn Tryweryn a thrwy Lyn Celyn i ymuno ag afon Dyfrwy gerllaw'r Bala.

Yn y 13eg ganrif y ffurf ar yr enw yw TRAWERIN a'r elfen gyntaf yn cryfhau'r ystyr. Erbyn dechrau'r ddeunawfed ganrif Tryweryn yw'r ffurf sydd wedi ennill ei phlwyf. Ystyr yr enw yw 'gwlychu'n helaeth iawn, llifeiriant hynod'.

Yn 1955 penderfynodd pwyllgor dŵr Corfforaeth Lerpwl mai Cwm Tryweryn oedd y lle delfrydol i adeiladu cronfa ddŵr newydd ar gyfer y ddinas. Yn unol â'r bwriad boddwyd y cwm a diwreiddio 48 o drigolion pentref Capel Celyn. Wrth fodd'r cwm a'r pentref ffurfiwyd cronfa ddŵr Llyn Celyn. Mae afon Gelyn yn tarddu ym Mlaen Celyn ar Arenig Fechan. At y llystyfiant a ffynnai ar hyd glan yr afon y cyfeiria'r enw 'celyn'.

LLANYCIL

Ystyr yr enw yw 'eglwys mewn man cysgodol'. Mae'r eglwys wedi'i chysegru i Beuno ac mae mewn cilfach ar lan Llyn Tegid. Er mai'r fannod a geir yng nghanol yr enw ymddengys bod y brif acen yn disgyn ar y goben neu'r sillaf olaf ond un o gyfnod cynnar gan beri i 'Llan-y-cil' droi'n LLANYCIL. Gellir canfod yr un nodwedd yn PENYBERTH (Sir Garmarfon), BACHYGRAIG (Sir Fflint) a TREFYCLO (Powys).

Ym mynwent Llanycil mae bedd Thomas Charles o'r Bala un o sylfaenwyr Cymdeithas y Beibl. Pan gododd cyfle yn 2007, prynwyd yr adeilad gan Gymdeithas y Beibl a'r bwriad yw ei ddatblygu'n ganolfan addysgol a fydd yn egluro dylanwad y Beibl ar Gymru ac ar y byd ac yn hybu datblygu deunyddiau dysgu ac addysgu. Mae'n fenter gwerth ei chefnogi.

DOLGELLAU

Enw anodd i'w esbonio'n hollol foddhaol yw Dolgellau. Mae'r ffurf gynharaf ar yr enw yn digwydd ganol y 13 ganrif a'r elfennau yw 'dôl' sef llecyn gwastad ar lan afon neu lyn a'r enw lluosog 'cellau'. Mae amryw ystyron i 'cell': gall ddynodi trigfan meudwy neu fynach; ystorfa i fwydydd neu i winoedd; llecyn deiliog cysgodol. Yr hyn y gellir ei ddweud â sicrwydd yw bod y dref farchnad hynafol hon ar lan afon Wnion a bod Wnion llifo i afon Mawddach. Sefydlwyd clwb criced yn y dref yn 1869 a dyma un o'r clybiau criced cynharaf yng Nghymru.

LLUNIWDYD Y SYLWADAU UCHOD GYDA CHEFNOGAETH CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU A NAWDD GWARCHOD. NOD Y DDAU GORFF YW HYBU YMWHYBYDDIAETH, ASTUDIAETH A DEALLTWRIAETH O ENWAU LLEOEDD A'U PERTHYNAS AG IEITHOEDD, AMGYLCHEDD, HANES A DIWYLLIANT CYMRU. CROESO ICHI YMUNO Â NI. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

Eisteddfod Capel y Croes



Adran Cyfyngedig - Elan Jenkins, Alltyblaca yn ennill y cwpan am ganu dan 8 oed a'i chyfnither Luned Haf Jones, Cwmsychpant yn yn ennill y cwpan am lefaru dan 8 oed.



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn ennill y cwpan ar yr llefaru 6-8 oed.



Ffion Davies, Llanybydder yn ennill y cyntaf ar yr Unawd 6-8 oed ac ail am lefaru a'i chwaer Sioned yn gyntaf ar yr unawd 10-12 oed, llefaru 10-12 oed a chyntaf hefyd ar yr emyn dan 12oed.



Unawd ar offeryn cerdd dan 12 oed - Cyntaf - Sara Elan Jones, Cwmann.



Nia Eleri Morgans wedi ennill cwpan am ganu a llefaru yn yr adran gyfyngedig dan 12 oed.

Beth am hysbysebu ym mhapur bro

CLONC

Hysbyseb 6.5 x 5cm am £10, neu £60 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm am £20, neu £120 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 5cm lliw am £25, neu £150 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm lliw am £50, neu £300 mewn deg rhifyn
Chwarter tudalen am £40, neu £100 am hysbyseb lliw
Hanner tudalen am £60, neu £150 am hysbyseb lliw



601 A ydych chi'n chwilio am y ffordd orau i deithio o amgylch eich ardal?

- Eisiau cyrraedd y gwaith a llefydd hyffordiant?
- Eisiau ymweld â theulu a ffrindiau?
- Angen cael gofal iechyd?
- Chwant mynd ar daith am y diwrnod?

Bwcabus yw'r ateb!

Dydd Llun - Dydd Sadwrn
7am - 7pm

Mae Bwcabus yn gallogi pobl o unrhyw oed i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol.



TOCYN ARBED DYDD SADWRN

Teithio faint fynnoch ar Bwcabus a'r rhwydwaith bysiau cysylltu

DRWY'R DYDD, BOB DYDD SADWRN

16-21
oed

DIM OND
£3.50

Hyblyg, Rhesymol,

Economaidd, cyfleus

f /Bwcabus

@Bwcabus
#saturdaysaver

Telerau ac amodau'n berthnasol. Edrychwch ar y wefan i weld y manylion.

Cysylltwch â Bwcabus HEDDIW 01239 801601
I gael gwybod mwy, ewch i www.bwcabus.info

Mae gwasanaeth Bwcabus yn cael ei weithredu gan Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, ar y cyd â Phrifysgol De Cymru a Traveline Cymru. Ariennir y gwasanaeth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.



Agoriad Swyddogol Clwb Rygbi Llanbed



Priodasau



Catrin Williams, Wyngarth, Cwmann a Colin Evans o'r Barri a briododd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbedd ar y 26ain o Ebrill. Treuliodd y ddau mis mêl yn yr Eidal, ac maent bellach wedi ymgartrefu yn y Barri. Llongyfarchiadau i chi a phob lwc i'r dyfodol!



Llongyfarchiadau i Gwennan Davies, Llys Deri, Llanwenog a Carwyn Jenkins, Blaenplwyf, Abermeurig ar achlysur eu priodas yn Eglwys Llanwenog ar y 10fed o Fai, 2014.



Priodwyd Bethan Roberts a Sam Vernon ddydd Sadwrn, 19eg o Ebrill yn Eglwys Sant Luc, Llanllwni. Cawsant ddiwrnod bendigedig gyda'r haul yn gwenu trwy'r dydd. Hoffai'r pâr hapus ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.